# Effaith Economaidd Pandemig COVID-19 ar Fusnesau a Phobl Hunangyflogedig yng Ngheredigion

Dr Aloysius Igboekwu

Dr Sarah Lindop

Dr Maria Plotnikova

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

1872 150 2022

# Effaith Economaidd Pandemig COVID-19 ar Fusnesau a Phobl Hunangyflogedig yng Ngheredigion

Ariannwyd yr astudiaeth hon gan Brifysgol Aberystwyth

**Awduron:**

Dr Aloysius Igboekwu

Dr Sarah Lindop

Dr Maria Plotnikova

Mae'r awduron yn ddiolchgar i Dr Sarah Clarke am gymorth ymchwil rhagorol ac i ganolwr am sylwadau defnyddiol.

**Cysylltiadau:**

1. Canolfan Creadigrwydd, Arweinyddiaeth ac Economïau Rhanbarthol
2. Canolfan Cymdeithasau Cyfrifol

Ysgol Fusnes Aberystwyth
Prifysgol Aberystwyth,
Aberystwyth,
Cymru,
SY23 3DY,
Y Deyrnas Unedig

# Effaith Economaidd Pandemig COVID-19 ar Fusnesau a Phobl Hunangyflogedig yng Ngheredigion

## Crynodeb Gweithredol

Nod yr astudiaeth hon yw archwilio a deall effaith economaidd pandemig COVID-19 ar fusnesau a phobl hunangyflogedig yng Ngheredigion. Mae Ceredigion yn sir wledig sydd â sectorau diwydiant allweddol megis amaethyddiaeth, lletygarwch, twristiaeth, manwerthu, adeiladu, gweithgynhyrchu, y gwasanaeth sifil, iechyd a gofal cymdeithasol, y celfyddydau creadigol/adloniant, trafnidiaeth, telathrebu, ac addysg (gan gynnwys addysg uwch). Yn ogystal, mae llawer iawn o sefydliadau anllywodraethol ac elusennau wedi'u lleoli yn y sir. Un o'r prif nodweddion sy'n gwneud Ceredigion yn wahanol yw ei chyfran fawr o fusnesau hunangyflogedig (13.5% yn 2022) a mentrau bach a micro (91.8% yn 2022).

Ar 23 Mawrth 2020, cyflwynodd llywodraeth y Deyrnas Unedig gyfyngiadau amrywiol er mwyn atal lledaeniad y feirws COVID-19. Roedd y cyfyngiadau yn cynnwys cau mannau gwaith ac addoli, siopau, busnesau, canolfannau hamdden, digwyddiadau chwaraeon, gwestyau a bwytai, tafarndai, clybiau nos, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, ysgolion a phrifysgolion. Cafodd gweithgareddau nad oeddent yn hanfodol (gweler Atodiad 1), teithio nad oedd yn hanfodol, a gweithgareddau twristiaeth eu hatal dros dro. Cafodd y mesurau rheoli, y cyfyngiadau a'r cyfyngiadau symud dilynol effaith negyddol ar yr economi gan arwain at gostau uniongyrchol i fusnesau a phobl hunangyflogedig ac effaith ar refeniw a phroffidioldeb, cadwyni cyflenwi a gweithrediadau, a chyfalaf dynol[1]. Roedd yr effaith ar weithrediadau busnes yn cynnwys: cau safleoedd busnes, llai o oriau gwaith gan fod gweithwyr yn cyfuno dyletswyddau gwaith â chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofal eraill, neu'r angen i weithwyr weithio gartref yn ystod y cyfyngiadau symud (ONS, 2020a). Ar ddechrau'r cyfnod cau a chyflwyno cyfyngiadau symud, roedd dyfodol yr economi yn edrych yn wael ac roedd disgwyl i'r sefyllfa economaidd yn y wlad waethygu (ONS, 2020a).

Yn yr astudiaeth hon, rydym wedi ymchwilio'n benodol i effaith economaidd pandemig COVID-19 ar fusnesau a phobl hunangyflogedig yng Ngheredigion. Wrth i'r cyfyngiadau symud gau'r rhan fwyaf o weithgareddau economaidd ledled y byd a'r DU, does dim amheuaeth bod y mesurau hyn wedi cael effaith negyddol ar fusnesau. Roedd effaith andwyol cau busnesau a chyflwyno cyfyngiadau symud yn fwy amlwg mewn economïau gwledig fel Ceredigion (Mahmud a Riley, 2021, Walmsley et al, 2020). Roedd y ffaith hon wedi cymell astudiaeth lefel leol i werthuso effaith y pandemig, gan amlygu gwendidau busnes ar sawl lefel yn deillio o ryngweithio rhwng ffactorau lleol fel cyfansoddiad sectoraidd yr economi leol, patrymau trosglwyddo, a mathau o fusnes.

Prif amcan y prosiect ymchwil hwn yw archwilio'r dystiolaeth a deall effaith economaidd pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud ar fusnesau a phobl hunangyflogedig yng Ngheredigion. Mae'r astudiaeth yn ceisio nodi'r datblygiadau negyddol a chadarnhaol a sut y gallent helpu i lywio'r broses o lunio polisïau yn y dyfodol. Bydd y wybodaeth sy'n deillio o'r gwaith ymchwil hwn yn ddefnyddiol i lunwyr polisi wrth ddarparu mesurau priodol i gynorthwyo adferiad busnesau. Disgwylir y bydd yr adroddiad hwn o werth i fusnesau a phobl hunangyflogedig sy'n gweithredu yn y sir ac mewn siroedd tebyg eraill ledled y DU.

Mae'r astudiaeth hon yn seiliedig ar arolwg o fusnesau a phobl hunangyflogedig yng Ngheredigion ac mae'n cael ei llywio gan adolygiad o lenyddiaeth academaidd gysylltiedig ac astudiaethau eraill a gwblhawyd gan asiantaethau'r llywodraeth a sefydliadau anllywodraethol ar effaith pandemig COVID-19 yn y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill yn y byd.

Mae'r prosiect ymchwil hwn yn archwilio sut y gwnaeth busnesau a phobl hunangyflogedig yng Ngheredigion ymdopi yn ystod pandemig COVID-19. Mae busnesau a phobl hunangyflogedig yng Ngheredigion wedi darparu gwybodaeth am eu lefel o broffidioldeb a refeniw, y gadwyn gyflenwi a materion gweithredol, cyfalaf dynol, cynlluniau cymorth y llywodraeth, materion cysylltedd digidol, a hyder yn y dyfodol. Mae'r ymatebion hyn yn cael eu harchwilio ym mhrif gorff yr adroddiad.

Fe wnaethom dderbyn cyfanswm o ddeugain o ymatebion gan fusnesau a thrideg saith o ymatebion gan unigolion hunangyflogedig yng Ngheredigion[2]. Roedd yr ymatebwyr wedi cwblhau fersiwn ar-lein yr arolwg, a oedd ar gael ar wefannau Cyngor Sir Ceredigion a Phrifysgol Aberystwyth ac ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol eraill. Yn ystod y pandemig, y platfform ar-lein oedd y ffordd gyflymaf a mwyaf diogel o gyrraedd busnesau a phobl hunangyflogedig, felly fe wnaethom benderfynu cynnal arolwg ar-lein.

Mae crynodeb o'r amrywiaeth o fusnesau a holwyd yn dangos y canlynol: roedd 10.5% o fusnesau ond wedi bod yn weithredol yn y flwyddyn cyn cyflwyno'r cyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020, roedd 60.5% o fusnesau wedi bod yn weithredol ers 2000, ac roedd 39.5% o fusnesau wedi'u sefydlu cyn y flwyddyn 2000. Roedd 47% o'r ymatebwyr busnes yn gwmnïau atebolrwydd cyfyngedig. Roedd 62% o'r busnesau a holwyd yn cael eu cynnal dan drefniant unig berchennog. Roedd yr ymatebwyr yn dod o ystod eang o sectorau diwydiannol. Y gyfran fwyaf oedd 32% ym meysydd lletygarwch, twristiaeth a'r sector hamdden, yna 17% ym maes manwerthu, 12% mewn adeiladu, 7% mewn gweithgynhyrchu a chludiant, 5% mewn gofal plant, 5% mewn TG, 3% yr un mewn gwasanaethau ariannol, addysg ac amaethyddiaeth, a 2% yr un mewn gofal iechyd, cyfreithiol a diwydiant y cyfryngau.

Mae ein canfyddiadau'n dangos newidiadau sylweddol mewn refeniw busnesau, lefelau dyled allanol, newidiadau yn y galw ac yn nifer y cwsmeriaid, a tharfu ar gadwyni cyflenwi ers dechrau'r pandemig COVID-19. Newidiwyd yr amgylchedd busnes yn sylweddol o ganlyniad i'r angen i newid gweithrediadau er mwyn cydymffurfio â chyfyngiadau'r llywodraeth e.e. cadw pellter cymdeithasol, mwy o lanweithdra a glanhau, a staff â chyfrifoldebau gofalu yn gweithio gartref. Yn ogystal, arweiniodd yr angen i weithredu ar-lein at gynnydd sylweddol yn nifer y busnesau a oedd yn gorfod darparu dyfeisiau cyfrifiadurol, cysylltedd rhyngrwyd a hygyrchedd digidol ar gyfer eu gweithrediadau.

Cafodd COVID-19 effaith negyddol ar refeniw dros ddwy ran o dair o'r sampl o fusnesau a holwyd. Roedd refeniw 69% o fusnesau wedi gostwng tra bod refeniw 10.5% ohonynt wedi cynyddu yn ystod y pandemig. Roedd lefel dyled allanol 33% o fusnesau wedi codi a nododd 54% o fusnesau fod eu cyllid wedi amrywio yn ystod y pandemig. Dywedodd 92% o fusnesau eu bod wedi wynebu anawsterau mewn meysydd gwahanol o'u busnes. Dyma'r anawsterau: tarfu ar gadwyni cyflenwi, gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid, gostyngiad mewn llif arian, cynnydd yn nifer dyledwyr busnesau, materion staffio, amgylchiadau teuluol, mynediad at farchnadoedd lleol, a phroblemau hygyrchedd oherwydd parthau diogel mewn trefi.

Gan ganolbwyntio ar yr ymatebwyr hunangyflogedig i'r arolwg, nododd 46% fod nifer cwsmeriaid y busnes wedi gostwng oherwydd cyfyngiadau COVID-19, a nododd 43% o fusnesau hunangyflogedig fod refeniw'r busnes wedi gostwng gan fod llai o alw am eu cynhyrchion a'u gwasanaethau, o'i gymharu ag 8% a nododd gynnydd mewn refeniw busnes oherwydd cynnydd yn y galw am eu cynhyrchion a'u gwasanaethau.

Arweiniodd yr achosion o COVID-19 at darfu sylweddol ar gadwyn gyflenwi busnesau yng Ngheredigion. Nododd 45% o'r busnesau fod eu cadwyni cyflenwi wedi wynebu graddau gwahanol o darfu. Cafodd 5% o'r ymatebwyr hunangyflogedig eu heffeithio'n uniongyrchol gan brinder cyflenwadau sy'n angenrheidiol i gynnal eu busnesau. Oherwydd yr effaith ar gadwyni cyflenwi a'r ffaith fod busnesau wedi gorfod cau dros dro, bu'n rhaid i lawer o fusnesau fabwysiadu dulliau gweithio newydd ac addasu i anghenion cwsmeriaid mewn cyfnod byr iawn.

Ymysg y busnesau a holwyd, bu'n rhaid i 76% newid eu dull gweithredu yn sgil cyflwyno mesurau iechyd a diogelwch newydd. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys lleihau capasiti gweithredol er mwyn sicrhau bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol, diheintio a glanhau ardaloedd cwsmeriaid yn aml, addasu'r busnes i ddarparu gwasanaeth tecawê yn unig, symud y

1. *Mae cyfalaf dynol yn cynnwys gwybodaeth, sgiliau a phrofiad y mae pobl wedi'u cronni trwy gydol eu bywyd gwaith.*

2. *Holwyd y busnesau hunangyflogedig yn yr arolwg ar effeithiau economaidd-gymdeithasol Pandemig COVID-19 ar aelwydydd Ceredigion, ac mae eu hymatebion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn unig.*

busnes ar-lein, newid patrymau sifftiau i weithwyr, a symud cyfarfodydd ar-lein wrth i rai gweithwyr barhau i weithio gartref. Nododd 47% o'r busnesau a holwyd iddynt wynebu problemau â mynediad a chysylltedd digidol gan gynnwys gwasanaeth band eang araf, signal ffôn symudol gwael, diffyg sgiliau digidol, a chost mynediad digidol. Mae'r gallu i symud y busnes cyfan neu ran o'r busnes ar-lein yn dibynnu ar seilwaith a chysylltedd digidol da.

Roedd COVID-19 wedi cael effaith ar 3% o'r busnesau a holwyd, a bu'n rhaid iddynt gau eu busnes yn barhaol, tra bod 69% wedi gorfod cau eu busnes dros dro. Ar ôl i'r busnesau orfod cau yn y dechrau, llwyddodd y rhan fwyaf ohonynt i weithredu mewn rhyw ffordd. Ni wnaeth 95% o fusnesau yng Ngheredigion gau'n barhaol. Fe wnaeth 3% o fusnesau hunangyflogedig gau'n barhaol tra bod 35% wedi cau dros dro. Roedd y busnesau hunangyflogedig a gaeodd dros dro yn cynnwys busnesau ym meysydd lletygarwch, y celfyddydau creadigol, artist ffotograffiaeth, manwerthu, gwasanaethau busnes, cadw siop, ffotograffiaeth, trin gwallt, therapi cyffredinol a chynnal a chadw eiddo.

Cafodd y pandemig effaith andwyol ar gyfalaf dynol a arweiniodd at ddiswyddiadau, llai o oriau gwaith a newidiadau mewn patrymau gwaith. Dywedodd 13% o fusnesau eu bod wedi diswyddo staff oherwydd y pandemig. Roedd 41% o fusnesau wedi lleihau oriau gwaith eu gweithwyr, ac roedd staff 32% ohonynt yn gweithio gartref. Roedd 34% o weithwyr yn yr holl fusnesau a holwyd yn gofalu am blant yn ystod y pandemig. Hefyd, roedd gweithwyr yn hunanynysu neu ar absenoldeb salwch ac yn derbyn absenoldeb salwch am dâl gan y cwmni neu Dâl Salwch Statudol oherwydd y pandemig. Cafodd y diswyddiadau, y newidiadau i batrymau gwaith a'r prinder staff oherwydd absenoldeb salwch neu oherwydd bod pobl yn hunanynysu effaith negyddol anuniongyrchol ar y busnesau a holwyd.

Cyflwynodd y llywodraeth ystod o gynlluniau cymorth er mwyn helpu busnesau a phobl hunangyflogedig. Cynlluniau cymorth y llywodraeth a ddefnyddiwyd fwyaf oedd y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (Ffyrlo) i helpu i gadw gweithwyr yn ystod y pandemig a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) i gefnogi pobl hunangyflogedig. Dangosodd yr ymatebion fod busnesau wedi gwneud cais am gynlluniau eraill, gan gynnwys: grantiau Llywodraeth Cymru, benthyciadau adfer, cynllun grantiau ardrethi busnes, grantiau cymorth busnes, grantiau busnes ardrethi annomestig, grantiau dewisol Awdurdodau Lleol, grantiau busnesau bach, grant COVID i gychwyn busnes, Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws (CBILS), Cynllun Benthyciadau Adfer (BBLS), benthyciadau wedi'u cefnogi gan y Llywodraeth, a'r Gronfa Cadernid Economaidd.

Yng Ngheredigion, roedd 59% o'r busnesau a holwyd wedi cofrestru ar gyfer cynllun Ffyrlo'r llywodraeth. Nid oedd unig fasnachwyr na busnesau hunangyflogedig yn gymwys ar gyfer y cynllun. Nid oedd busnesau nad oedd ganddynt unrhyw weithwyr neu nad oeddent wedi bod yn masnachu'n ddigon hir yn gymwys chwaith. Fe wnaeth rhai busnesau barhau i fasnachu trwy gydol y pandemig gan gynnal y lefelau staffio a oedd ganddynt cyn y pandemig heb gymorth y cynllun Ffyrlo. Roedd y rhain yn cynnwys busnesau â staff a oedd yn gweithio gartref a busnesau a oedd yn parhau i werthu nwyddau (ond ar lefel is na'r blynyddoedd blaenorol) neu fusnesau a werthodd fwy o nwyddau yn sgil cyflwyno llinellau busnes newydd.

Yn wahanol i'r Cynllun Ffyrlo a gyflwynwyd yn gyflymach, cafodd y cynllun SEISS ei gyflwyno ddeufis yn ddiweddarach. Roedd yr oedi cyn sefydlu'r cynllun wedi cyfrannu at galedi ariannol busnesau bach ac roedd y meini prawf cymhwysedd yn hepgor sawl categori o bobl hunangyflogedig. Roedd 27% o fusnesau hunangyflogedig wedi gwneud cais am gynllun SEISS y Llywodraeth. Roedd 22% o bobl hunangyflogedig a holwyd yn gymwys ac yn llwyddiannus yn eu cais am unrhyw gynlluniau cymorth busnes hunangyflogaeth y llywodraeth. Nododd 76% o'r ymatebwyr hunangyflogedig nad oeddent yn gymwys ar gyfer unrhyw un o gynlluniau cymorth busnes hunangyflogaeth y llywodraeth. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod y meini prawf[3] cymhwysedd wedi eithrio rhai pobl hunangyflogedig rhag cymryd rhan yn y cynlluniau hyn.

Llwyddodd y mesurau rheoli a roddwyd ar waith i leihau lledaeniad feirws COVID-19 a lleihau'r baich ar y GIG. Hefyd, llwyddodd cynlluniau cymorth busnes y llywodraeth i leddfu rhai o effeithiau andwyol y pandemig. Fodd bynnag, roedd busnesau a phobl hunangyflogedig wedi dioddef oherwydd y mesurau rheoli er gwaethaf cymorth y llywodraeth. Er enghraifft, roedd y penderfyniad i gau gweithgareddau economaidd yn ystod y pandemig yn golygu bod llai o alw amdanynt, ac fe gafodd hyn effaith negyddol ar refeniw ac elw gan arwain at gau busnesau. Bu'n rhaid i rai busnesau ysgwyddo dyledion ychwanegol er mwyn goroesi. Hefyd, cafodd cyfyngiadau symud a mesurau rheoli COVID-19 eraill effaith negyddol uniongyrchol ar weithrediadau busnes a chadwyni cyflenwi. Cafodd staff eu diswyddo, roedd rhai yn gweithio gartref, rhai yn hunanynysu ar ôl cael eu heintio, rhai wedi cymryd absenoldeb salwch am dâl neu heb dâl, a rhai yn ymgymryd â chyfrifoldebau addysgu gartref neu gyfrifoldebau gofal eraill. Cafodd pob un o'r rhain effaith negyddol ar fusnesau trwy newidiadau mewn oriau gwaith, patrymau gwaith a chyfrifoldebau gweithwyr. Llwyddodd y Cynllun Ffyrlo a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig i helpu i gadw staff a chynorthwyo pobl hunangyflogedig. Fodd bynnag, cafwyd oedi wrth gyflwyno'r SEISS, ac roedd sawl categori o bobl hunangyflogedig wedi'u heithrio o'r cynllun ar sail y meini prawf cymhwysedd.

Yn olaf, fel sy'n wir am unrhyw ddull casglu data sy'n seiliedig ar arolwg, mae angen bod yn ofalus wrth ddarllen a dehongli canlyniadau'r astudiaeth hon. Mae'n bosibl bod busnesau a phobl hunangyflogedig a gafodd eu heffeithio fwyaf gan y pandemig yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar eu sefyllfa ac nad oeddent wedi'u cymell i gymryd rhan yn yr arolwg. Mae hyn yn golygu nad yw rhai o effeithiau gwaethaf y pandemig ar fusnesau yng Ngheredigion wedi cael eu hadlewyrchu yn ein canlyniadau o bosibl. Nid oedd modd defnyddio dulliau casglu data amgen fel grwpiau ffocws oherwydd cyfyngiadau pandemig COVID-19.

.

*3. Gweler Atodiad 2 am fwy o wybodaeth am feini prawf cymhwysedd SEISS.*

# Tabl Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 4 |
| Cyflwyniad | 10 |
| Cefndir | 10 |
| Dull Astudio | 22 |
| Llunio'r Holiadur | 23 |
| Casglu Data | 24 |
| Canlyniadau | 25 |
| **Adran 1:** Refeniw a Phroffidioldeb | 25 |
| **Adran 2:** Y gadwyn gyflenwi a materion gweithredol | 27 |
| **Adran 3:** Cyfalaf Dynol | 30 |
| **Adran 4:** Hunangyflogaeth | 31 |
| **Adran 5:** Cynlluniau Cymorth y Llywodraeth | 32 |
| **Adran 6:** Mynediad i'r Rhyngrwyd a Thechnoleg Ddigidol | 35 |
| **Adran 7:** Bregusrwydd Busnesau | 36 |
| **Adran 8:** Symud Ymlaen | 38 |
| Casgliadau | 40 |
| Cyfeiriadau | 42 |
| Atodiad 1- Siopau sy'n gwerthu nwyddau nad ydynt yn hanfodol | 44 |
| Atodiad 2: Meini Prawf Cymhwysedd SEISS | 45 |
| Atodiad 3: Effaith COVID-19 yng Ngheredigion: Arolwg Busnes | 47 |

# Cyflwyniad

Prif bwrpas yr astudiaeth hon yw asesu effaith economaidd y pandemig a'r cynnydd aml-lefel yn sefyllfa fregus busnesau a phobl hunangyflogedig yng Ngheredigion. Roedd busnesau a phobl hunangyflogedig yng Ngheredigion yn wynebu lefelau amrywiol o heriau ac ansicrwydd economaidd yn dilyn yr achosion o COVID-19 ym mis Mawrth 2020. Cafodd y pandemig, a'r mesurau rheoli a'r cyfyngiadau a'i dilynodd, effaith sylweddol ar fusnesau ledled y byd. Yn y Deyrnas Unedig, cafodd y pandemig effaith wahanol ar fusnesau a phobl hunangyflogedig mewn siroedd gwahanol. Roedd hyn yn dibynnu ar gyfansoddiad sectoraidd yr economi leol, patrymau trosglwyddo, mathau o fusnes, a setiau sgiliau. Roedd y mesurau rheoli, y cyfyngiadau a'r cyfyngiadau symud dilynol wedi lleihau gweithgareddau economaidd ac wedi cael effaith negyddol ar yr economi gan arwain at gostau uniongyrchol i fusnesau a phobl hunangyflogedig ac effaith ar refeniw a phroffidioldeb, cadwyni cyflenwi a gweithrediadau, a chyfalaf dynol. O ganlyniad, roedd sefyllfa fregus y rhan fwyaf o fusnesau wedi cynyddu ar sawl lefel.

Trefnwyd cwestiynau'r arolwg ar sail themâu cysylltiedig a nodwyd o dystiolaeth mewn llenyddiaeth ac astudiaethau sy'n bodoli eisoes a gwblhawyd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn ystod pandemig COVID-19. Cawsom 40 o ymatebion gan fusnesau Ceredigion a 37 gan bobl hunangyflogedig. Yn wreiddiol, cafodd yr holiadur ar gyfer pobl hunangyflogedig ei gynnwys yn yr Arolwg o Aelwydydd, ond cyfunwyd eu hymatebion â'r ymatebion gan fusnesau at ddibenion dadansoddi[4].

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys pedair rhan allweddol. Mae'r rhan gyntaf yn darparu gwybodaeth gefndir gryno am yr astudiaeth ac yn adolygu llenyddiaeth gysylltiedig. Yn ogystal, mae'n archwilio'r ddealltwriaeth bresennol o effaith pandemig COVID-19 yn y Deyrnas Unedig. Mae'r ail ran yn trafod y dull astudio a ddefnyddiwyd, gan gynnwys llunio'r holiadur a'r weithdrefn samplu. Mae'r dadansoddiad o'n canfyddiadau yn dilyn yn rhan tri, ac mae'r adrannau trafod wedi'u trefnu ar sail prif themâu'r astudiaeth. Mae rhan olaf yr adroddiad yn cynnwys casgliadau sy'n deillio o ddadansoddiad o'r ymatebion, ac awgrymiadau polisi ar gyfer llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yn y dyfodol. Mae copi o'r holiadur wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

## Cefndir

Cofnodwyd yr achosion cyntaf o'r coronafeirws (SARS-CoV-2) a elwir yn COVID-19, yn Wuhan, Tsieina, ym mis Rhagfyr 2019. Erbyn mis Chwefror 2020, roedd y clefyd wedi lledaenu ar draws y byd, gan gynnwys gwledydd Ewrop a'r Deyrnas Unedig. O ganlyniad, wrth i'r clefyd barhau i ledaenu'n fyd-eang, dynododd Sefydliad Iechyd y Byd yr achosion o SARS-CoV-2 yn bandemig byd-eang ar 11 Mawrth 2020 (Sefydliad Iechyd y Byd 2020). Fodd bynnag, ni wnaeth llywodraeth y Deyrnas Unedig basio cyfarwyddeb i bob busnes a pherson yn y wlad aros gartref tan ddydd Llun 23 Mawrth 2020. Nod y gyfarwyddeb oedd helpu i atal lledaeniad y feirws ledled y DU.

Ar ôl i'r mesurau aros gartref gael eu cyflwyno, roedd busnesau'r DU yn poeni am effaith COVID-19 ar eu proffidioldeb oherwydd y ffaith eu bod yn agor am lai o oriau, bod gweithleoedd yn cau a bod cyfarwyddeb gweithio gartref wedi'i chyhoeddi. Roedd pryderon eraill yn cynnwys tarfu ar weithrediadau, diswyddiadau, a'r her o sicrhau cydbwysedd rhwng dyletswyddau gwaith a gofalu am blant neu bobl eraill. Roedd pobl hunangyflogedig yn poeni am fethu â pharhau i fasnachu oherwydd gostyngiad yn y galw am eu gwasanaethau a gostyngiad yn eu refeniw (ONS, 2020a).

Roedd pandemig COVID-19 a'r gyfarwyddeb aros gartref wedi effeithio ar sectorau a meysydd o'r economi gwahanol. Cafodd y pandemig effaith andwyol iawn ar gadwyn gyflenwi nwyddau a gwasanaethau (Aday ac Aday, 2020). Bu'n rhaid i fusnesau newid eu dulliau gweithredu, er enghraifft, symud eu busnes ar-lein neu gyflwyno mesurau COVID-19 llym i sicrhau bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol. Roedd llawer o fusnesau a phobl hunangyflogedig wedi troi at y llywodraeth am gymorth er mwyn parhau i fod yn weithredol.

*4. Gweler yr adroddiad "Effeithiau economaidd-gymdeithasol Pandemig COVID-19 ar aelwydydd Ceredigion" am fwy o wybodaeth.*

| Busnesau | Ceredigion (niferoedd) | Ceredigion (%) | Cymru (niferoedd) | Cymru (%) |
|---|---|---|---|---|
| Micro | 3650 | 92.1 | 94600 | 89.4 |
| Bach | 290 | 7.3 | 9460 | 8.9 |
| Canolig | 25 | 0.6 | 1470 | 1.4 |
| Mawr | 5 | 0.1 | 335 | 0.3 |
| Cyfanswm | 3965 | 100 | 105855 | 100 |
| **Unedau Lleol** | | | | |
| Micro | 3985 | 88.5 | 107040 | 83.3 |
| Bach | 460 | 10.2 | 17715 | 13.8 |
| Canolig | 55 | 1.2 | 3300 | 2.6 |
| Mawr | 5 | 0.1 | 515 | 0.4 |
| Cyfanswm | 4505 | 100 | 128570 | 100 |

**Tabl 1:** Manylion Busnesau ac Unedau Lleol yn ôl Maint (2020)

Ffynhonnell: United Kingdom Business Counts (ONS, 2020c)

Mae gan Geredigion gyfran uwch o fusnesau micro ac unedau lleol na chyfartaledd Cymru.


Cyn ystyried effeithiau pandemig COVID-19 ar fusnesau Ceredigion, mae'r is-adran nesaf yn edrych yn fanylach ar gefndir busnesau Ceredigion.

### Cefndir busnesau Ceredigion

Mae busnesau bach a chanolig (BBaChau) yn rhan allweddol o economi Ceredigion. Dim ond 55 allan o tua 4500 o unedau busnes lleol yn y sir (1.2%) sy'n perthyn i'r categori "canolig", sef eu bod yn cyflogi rhwng 50 a 249 o weithwyr. Mae 10.5% o'r cyfanswm yn fusnesau bach sy'n cyflogi rhwng 10 a 49 o bobl, ac mae'r gweddill (88%) yn fusnesau "micro" sy'n cyflogi rhwng 0 a 9 o bobl[5]. Fel y gwelir yn Nhabl 1, mae cyfran uwch o'r economi yng Ngheredigion yn seiliedig ar BBaChau o'i gymharu â chyfartaledd Cymru.

Yn ystod y degawd diwethaf, gwelodd Ceredigion dwf negyddol yn nifer y busnesau ac unedau lleol; gostyngodd y niferoedd bob blwyddyn ac eithrio rhwng 2014 a 2017 (Ffigur 1). Mae hyn yn wahanol iawn i'r ffigurau ar gyfer Cymru a Phrydain lle'r oedd nifer y busnesau wedi cynyddu bob blwyddyn rhwng 2011-2021. Dylid nodi bod twf yn gadarnhaol yng Ngheredigion yn 2021-2022.


*5. Gall busnes fod â sawl uned leol, fel canghennau siop adrannol.*




**Ffigur 1:** Canran y newid yng nghyfanswm yr unedau lleol yng Ngheredigion, Cymru a Phrydain (2011-2022)

Ffynhonnell: United Kingdom Business Counts (ONS, 2020c)

Rhwng 2010 a 2022, roedd y newid blynyddol yng nghanran yr unedau lleol yng Ngheredigion yn negyddol am y rhan fwyaf o'r blynyddoedd. Cafwyd cynnydd sylweddol rhwng 2014 a 2016, cynnydd rhwng 2016 a 2017, a rhwng 2021 a dechrau 2022. Mae tuedd Ceredigion yn dilyn tueddiadau Cymru a Phrydain (er ei bod ar lefel is) ond roedd y duedd wedi gwrthdroi rhwng 2021 a 2022. Mae data Prydain yn cynnwys Cymru.




**Ffigur 2:** Canran o hunangyflogaeth ym mhob math o gyflogaeth yng Ngheredigion, Cymru a Phrydain yn y blynyddoedd 2004-2021

Ffynhonnell: ONS Annual Population Survey (2022)

Mae'r ganran o fusnesau hunangyflogedig yng Ngheredigion yn uwch na chyfartaledd Cymru a Phrydain. Roedd y gyfran o fusnesau hunangyflogedig yng Ngheredigion yn ansefydlog rhwng 2004 a 2021, ac roedd gostyngiad ar ôl i'r pandemig ddechrau.



Un o'r ffactorau allweddol sy'n gwneud Sir Ceredigion yn wahanol yw ei chyfran uchel o fusnesau hunangyflogedig. Mae ffigur 2 uchod yn dangos canran y busnesau hunangyflogedig yng Ngheredigion o'i gymharu â Chymru a'r Deyrnas Unedig rhwng y blynyddoedd 2004 a 2021.


Mae'r gostyngiad yn nifer y bobl hunangyflogedig yn yr economi leol yn ystod y pandemig yn cyd-fynd â chynnydd yn nifer y gweithwyr cyflogedig (ONS, 2022). Mae data a sylwadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu bod nifer o bobl hunangyflogedig wedi symud i swyddi mwy 'sefydlog' i fod yn weithwyr cyflogedig mewn busnesau eraill, neu eu bod wedi eu dosbarthu eu hunain o'r newydd yn weithwyr cyflogedig er mwyn manteisio ar y Cynllun Ffyrlo (ONS, 2022).

### Refeniw a Phroffidioldeb

Arweiniodd y pandemig at ostyngiad mewn gwerthiant, refeniw ac elw i lawer o gwmnïau. Datgelodd data o Arolwg Buddsoddiad Banc Buddsoddi Ewrop (EIBIS, 2021) fod cwmnïau'r UE wedi cael cryn ysgytwad oherwydd y pandemig, a bod gwerthiant 49% o gwmnïau'r UE wedi gostwng, tra bod gwerthiant 21% wedi cynyddu. Roedd cynhyrchiant isel (cyn yr argyfwng) yn rhagfynegydd cadarn o werthiant is, a nodwyd bod cwmnïau â mwy o adnoddau digidol ychydig yn fwy gwydn yn ystod y pandemig. Nododd yr EIBIS (2021) fod rhaniad rhwng cwmnïau a oedd yn digideiddio yn gyflymach a'r rhai a oedd yn symud ymlaen yn arafach, gydag anghymesuredd clir yn dod i'r amlwg. Roedd cwmnïau'r UE a oedd eisoes wedi cyflwyno technolegau digidol uwch yn fwy tebygol o ddigideiddio ymhellach oherwydd y pandemig, gan ei gwneud hi'n anoddach fyth i gwmnïau ddal i fyny os oeddent yn araf yn mabwysiadu'r dechnoleg. Dywedodd bron i hanner y cwmnïau a holwyd gan yr EIBIS a oedd eisoes wedi cyflwyno technolegau digidol uwch eu bod wedi cynyddu eu gweithgarwch digideiddio mewn ymateb i'r pandemig, ond dim ond traean o gwmnïau llai datblygedig yn ddigidol a ddywedodd hynny. Mae cwmnïau nad ydynt yn datblygu eu gweithgarwch digideiddio yn tueddu i fod yn llai trawsnewidiol, arloesol a chynhyrchiol, ac nid oeddent wedi defnyddio'r pandemig fel rheswm i ddatblygu eu portffolio cynnyrch a chynnal neu gynyddu eu refeniw gwerthiant (EIBIS, 2021).

Nododd yr ONS (2020b) fod cynnydd o 87% mewn rhybuddion elw yn 2020 a bod dros dri chwarter ohonynt yn nodi COVID-19 fel y rheswm, gan adlewyrchu sefyllfa busnesau a welodd yr effaith fwyaf ar y galw am eu cynnyrch a'u gweithrediadau oherwydd y mesurau cadw pellter cymdeithasol. Roedd taliad difidendau corfforaethau anariannol preifat wedi gostwng £51.7 biliwn yn 2020, ac roedd cyfanswm y taliadau difidend blynyddol wedi cyrraedd ei lefel isaf ers wyth mlynedd. Roedd y gostyngiad mewn taliadau difidend yn 2020 yn fwy uniongyrchol a sylweddol na'r dirywiad economaidd yn 2008. Yn ôl amcangyfrif adroddiad sefydlogrwydd ariannol Banc Lloegr (2020), byddai diffyg llif arian o hyd at £180 biliwn yn y flwyddyn ariannol yn dod i ben yn 2021, gan adlewyrchu yn bennaf yr ergyd i drosiant dros y cyfnod hwn. Awgrymodd data'r arolwg ONS (2020b) fod rhai diwydiannau wedi cael eu heffeithio'n wael iawn, yn enwedig meysydd llety a gwasanaethau bwyd, a sectorau'r celfyddydau, adloniant a hamdden. Fodd bynnag, nid oedd y gostyngiad enwol mewn elw corfforaethol mor fawr â'r gostyngiad yn incwm cenedlaethol 2020. Mae hyn oherwydd y cymorth ariannol a ddarparwyd gan y llywodraeth i fusnesau.

Mae Dorr, Licht a Murmann (2022) yn defnyddio data o 1.5 miliwn o gwmnïau Almaenig i ddangos mai cwmnïau llai o ran maint yn bennaf a wynebodd drallod ariannol mawr ac y byddent wedi mynd yn fethdalwyr heb gymorth polisi'r llywodraeth. Roedd gwerthiant cwmnïau bach wedi gostwng yn sylweddol (o leiaf 25%), ac roedd hyn yn waeth na chwmnïau canolig a mawr. Roedd busnesau bach yn y sector gweithgynhyrchu dair gwaith yn fwy tebygol o ddioddef y golled hon. Hefyd, roedd cwmnïau bach a micro ar draws y sectorau ddwywaith yn fwy tebygol o fynd yn ansolfent. Wrth i'w lefelau gwerthiant ostwng, penderfynodd 23% o gwmnïau adolygu eu cynlluniau buddsoddi yn y dyfodol er mwyn gwario llai, gyda dim ond 3% yn bwriadu buddsoddi mwy. Po fwyaf y colledion o safbwynt gwerthiant yn 2020, y lleiaf tebygol oedd cwmnïau o gynllunio i fuddsoddi mwy yn y flwyddyn i ddod o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Ategir y canfyddiad hwn gan ddata arolwg yr ONS (2020b) sy'n nodi gostyngiad mewn gwariant cyfalaf dros 2020, gan adlewyrchu effaith andwyol cyfyngiadau COVID-19 ar refeniw gwerthiant a sefyllfaoedd arian parod, yn ogystal ag effeithiau rhagor o ansicrwydd ynglŷn ag a fyddai'r newidiadau mewn lefelau a chyfansoddiad y galw yn parhau.




**Ffigur 3:** Effaith ddisgwyliedig COVID-19 ar werthiant, cyflogaeth, oriau a weithiwyd, buddsoddiad a chostau busnesau yn y DU

Ffynhonnell: Banc Lloegr (2020b) Impact of Covid-19 on UK businesses – evidence from the Decision Maker Panel in 2020 Q4 | Bank of England.

Nododd Reuschke et al (2020) effaith uniongyrchol a difrifol y cyfyngiadau symud ar bobl hunangyflogedig. Collodd tua hanner y bobl hunangyflogedig dros 50% o'u hincwm. Cynhaliodd Blundell, Machin a Ventura (2021) sawl arolwg o bobl hunangyflogedig gan nodi bod oriau gwaith ac incwm pobl hunangyflogedig wedi gostwng yn ystod y pandemig. Yn ôl yr awduron, roedd 57% o'r gweithwyr hunangyflogedig a holwyd yn ennill llai na £1,000 y mis ym mis Ionawr 2021. Roedd hyn wedi cynyddu o 31% ym mis Ionawr 2020 ac o 46% ym mis Awst 2020.

Mae busnesau bach a chanolig (BBaChau) yn gyfrifol am 50% o gyfanswm y refeniw sy'n cael ei greu gan fusnesau'r DU a 44% o weithlu'r wlad (McKinsey, 2020). Roedd pandemig COVID-19 wedi effeithio ar economi a bywoliaeth y bobl sy'n cynnal BBaChau. Nododd McKinsey (2020) fod 80% o'r BBaChau a holwyd wedi nodi bod eu refeniw yn sefydlog neu'n cynyddu cyn y pandemig, ond bod 80% wedi nodi bod eu refeniw wedi gostwng o ganlyniad i'r pandemig. Codwyd pryderon am fethu ag ad-dalu benthyciadau, cadw gweithwyr cyflogedig, cadwyni cyflenwi cynaliadwy, a'r angen i ohirio prosiectau twf. Nododd McKinsey (2020) fod y pandemig wedi cael effaith wahanol ar ddiwydiannau yn y DU, a'i fod wedi cael yr effaith fwyaf negyddol ar feysydd logisteg, adeiladu ac amaethyddiaeth. Cafodd yr effaith leiaf ar sectorau fel cyllid, ymchwil wyddonol, yswiriant ac addysg. Roedd McKinsey (2020) yn rhagweld y byddai gostyngiad mewn refeniw BBaChau yn cael effaith anghymesur ar oroesiad BBaChau. Roedd canlyniadau'r arolwg yn dangos y byddai gostyngiad mewn refeniw o 10 i 30 y cant yn arwain at ansolfedd.

Mae Ffigur 3 uchod yn dod o dystiolaeth arolwg Banc Lloegr (2020b) gan y panel penderfynu[6] yn chwarter 4 2020, ac mae'n edrych ar grynodeb o ganlyniadau effaith COVID-19 ar fusnesau'r DU hyd at fis Tachwedd 2020. Fel y dangosir yn y graff, cafodd COVID-19 effaith fawr ar amodau busnesau'r DU, ac roedd disgwyl y byddai COVID-19 yn parhau i effeithio ar werthiant, cyflogaeth, oriau gwaith, buddsoddiad a chostau dros y flwyddyn nesaf. Yn ystod dau chwarter cyntaf 2020, gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn gwerthiant, buddsoddiad a chyfanswm yr oriau gwaith. Roedd gwerthiant tua 30% yn is o'i gymharu â chyn COVID-19 yn chwarter 2 2020, a 17% yn is nag y byddai wedi bod yn chwarter 3 2020. Roedd cyflogaeth 8% yn is a buddsoddiad 24% yn is. Yn ogystal â'r dirywiad mewn amodau busnes, roedd cynnydd yng nghostau unedau o tua 7% yn chwarter 2 2020. Parhaodd y cynnydd hwn trwy gydol y cyfnod dan sylw, heb unrhyw ddisgwyliad y byddai'r costau hyn yn gostwng yn sylweddol wrth i amodau busnes eraill wella. Disgwyliwyd gwelliannau pellach yn ystod hanner cyntaf 2021, ac roedd disgwyl i werthiant fod tua 2% yn is yn unig erbyn ail chwarter 2021. Roedd disgwyl i fuddsoddiad wella hefyd, ond yn arafach ac nid i'r un graddau â gwerthiant (Banc Lloegr, 2020b).

*6. Mae'r Panel Penderfynu yn arolwg o Brif Swyddogion Ariannol busnesau bach, canolig a mawr yn y DU*



### Y Gadwyn Gyflenwi a Materion Gweithredol

Wrth i'r cyfyngiadau symud ddod i rym, dechreuodd defnyddwyr brynu llawer o eitemau hanfodol gan arwain at alw systemig enfawr. Roedd enghreifftiau'n cynnwys cynhyrchion fel papur toiled, hylif diheintio dwylo a hylif golchi dwylo. Ofnwyd na fyddai cadwyni cyflenwi yn gallu ymdopi â'r galw mawr. Er bod rhai cadwyni cyflenwi yn gorfod cynyddu eu lefelau cynhyrchu, roedd eraill yn gorfod cau gan na allent ymdopi â'r galw enfawr (Seifert a Markoff, 2020).

Amlygodd pandemig COVID-19 yr angen i gwmnïau ymateb ac addasu i argyfwng yn gyflym gan gryfhau gwytnwch eu gweithrediadau. Roedd rheoli cadwyni cyflenwi yn rhan allweddol o'r gweithgaredd rheoli risg hwn. Yn ystod pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud dilynol, roedd cwmnïau'n wynebu tarfu sylweddol a oedd yn cynnwys ceisio rheoli llai o gyflenwadau a rheoli disgwyliadau cwsmeriaid.

Mae cadwyni cyflenwi cyfoes yn gymhleth, ac er mwyn gwneud newidiadau iddynt mae angen ystyried rhwymedigaethau cytundebol, goblygiadau treth a chyflogaeth, costau adleoli posibl, materion fisa ar gyfer staff a gofynion mynediad, a goblygiadau gorfodaeth (Hedwall, 2020). Mae Dolgui ac Ivanov (2021) wedi astudio'r cysyniad o sgîl-effaith o safbwynt tarfu ar gadwyni cyflenwi a ffactor straen mewn gwytnwch cadwyn gyflenwi[7]. Mae pandemig COVID-19 wedi achosi sgîl-effeithiau yn y cadwyni cyflenwi a dynameg strwythurol y cadwyni cyflenwi sy'n dilyn yr effeithiau hyn, gan arwain at effeithiau fel refeniw is, oedi wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau, colli cyfran o'r farchnad ac enw da, ac effeithiau andwyol ar broffidioldeb cwmnïau (Dolgui ac Ivanov, 2021).

Roedd yr orddibyniaeth ar Tsieina fel cynhyrchydd nwyddau a gwasanaethau cost isel wedi tarfu ar y gadwyn gyflenwi ar gyfer cwmnïau, yn enwedig ar ddechrau'r pandemig pan gaeodd Tsieina yn gynnar yn 2020 (Wright a Lee, 2020). Roedd hyn wedi cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o arallgyfeirio daearyddol cadwyni cyflenwi. Tarfwyd ar argaeledd nwyddau o Tsieina gan gynnwys nwyddau gorffenedig i'w gwerthu, a chydrannau a ddefnyddir mewn ffatrïoedd mewn marchnadoedd datblygedig.

Roedd y cadwyni cyflenwi amaethyddol a bwyd ymysg y rhai a gafodd eu heffeithio fwyaf gan bandemig COVID-19. Mae Aday ac Aday (2020) yn nodi bod pandemig COVID-19 wedi cael effaith negyddol ar y gadwyn gyflenwi amaethyddiaeth a bwyd gyfan, o'r ffermydd i'r defnyddwyr. Sylwodd yr awduron fod y pandemig wedi cael effaith andwyol ar elfennau gwahanol o'r gadwyn gyflenwi, megis cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd, ac, yn y pen draw, y galw am fwyd. Maen nhw'n dadlau bod hyn wedi deillio o'r cyfyngiadau a'r mesurau a gyflwynwyd gan lywodraethau ledled y byd i reoli lledaeniad y feirws COVID-19. Mae'r awduron yn argymell bod angen gwneud y cadwyni cyflenwi yn ddigon hyblyg i leihau'r tarfu a'r heriau sy'n wynebu'r sector. Yn eu hastudiaeth o gadwyni cyflenwi amaethyddol, mae Sharma et al. (2020) yn nodi nifer o beryglon i gadwyni cyflenwi amaethyddol oherwydd effaith pandemig COVID-19. Mae canfyddiadau'r awduron yn dangos bod y peryglon galw a chyflenwad, y peryglon rheoli a gweithredol, y peryglon ariannol a logisteg, y peryglon polisi a rheoleiddiol, a pheryglon amgylcheddol wedi cyfrannu at lefelau tarfu gwahanol gan ddibynnu ar gwmpas a graddfa'r sefydliad. Hefyd, sylwodd yr awduron fod mabwysiadu strategaethau fel industry 4.0 technologies [8], cydweithredu rhwng cadwyni cyflenwi, a chyfrifoldeb ar y cyd yn ddefnyddiol i leihau tarfu ar gadwyni gyflenwi oherwydd pandemig COVID-19.

Astudiodd Magableh (2021) y tarfu ar y gadwyn gyflenwi fyd-eang oherwydd pandemig COVID-19.

*7. Mae'r awduron yn nodi bod y sgîl-effaith yn digwydd pan nad yw'r broses darfu yn effeithio ar un rhan o'r gadwyn gyflenwi yn unig, ond ei bod yn rhaeadru i lawr y gadwyn ac yn effeithio ar berfformiad y gadwyn gyflenwi gyfan.*

*8. Mae industry 4.0 technologies yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gynhyrchu ychwanegion, deallusrwydd artiffisial, data mawr a dadansoddeg, blockchain, cwmwl, y rhyngrwyd pethau diwydiannol, ac efelychu (Dalenogare et al., 2018; Bai et al., 2020).*

Mae'r awdur yn dadansoddi camau gwahanol y gadwyn gyflenwi er mwyn nodi canlyniadau, cyfleoedd a datblygiadau sy'n deillio o'r pandemig. Mae'r awdur yn dadlau bod pandemig COVID-19 wedi cael effaith negyddol iawn ar weithgareddau'r gadwyn gyflenwi fyd-eang, yn enwedig y cadwyni cyflenwi meddygol a bwyd byd-eang, a bod yr effeithiau hyn wedi peryglu uniondeb a sefydlogrwydd y gadwyn gyflenwi fyd-eang. Yn ogystal, mae'r papur yn awgrymu bod angen fframwaith cadwyn gyflenwi COVID-19 i helpu i fynd i'r afael ag unrhyw darfu mawr ar y gadwyn gyflenwi fyd-eang yn y dyfodol[9].

Mae Payne-Gifford et al (2022) yn archwilio effaith niweidiol pandemig COVID-19 ar gadwyni cyflenwi cig eidion a defaid Prydain. Mae'r astudiaeth yn seiliedig ar driongli adroddiadau newyddion am ffermio a diwydiant, cyflwyniadau i ymchwiliad COVID-19 y llywodraeth, a chyfweliadau gydag arbenigwyr y diwydiant. Mae'r awduron yn nodi nad oedd y pandemig wedi cael effaith mor ddifrifol ar ffermio da byw a gwasanaethau fferm â gweithgareddau eraill megis prosesu, manwerthu, gwasanaeth bwyd neu sianeli dosbarthu defnyddwyr. Fodd bynnag, roedd y penderfyniad sydyn i gau'r sector lletygarwch ac arlwyo ac ailgyfeirio cyflenwadau i'r sector manwerthu wedi cael effaith ddramatig ar broseswyr cynradd ac eilaidd cig coch. Yn ôl asesiad yr awduron, mae yna wytnwch cynhenid yng nghadwyni cyflenwi diwydiant cig eidion a defaid Prydain o ganlyniad i'r cylchoedd cynhyrchu traddodiadol. Mae'r cylch cynhyrchu 12-36 mis a weithredir gan y diwydiant hwn yn ei helpu i wrthsefyll tarfu anuniongyrchol fel pandemig COVID-19.

Cadwyn gyflenwi diwydiant arall a ddioddefodd o ganlyniad i bandemig COVID-19 oedd adeiladu tai ac adeiladu yn gyffredinol. Nododd astudiaeth Tyfu Tai Cymru (rhan o Sefydliad Tai Siartredig Cymru, 2021) fod 90% o sefydliadau a ymatebodd wedi dioddef yn sgil tarfu ar y gadwyn gyflenwi ar gyfer eu rhaglenni adeiladu tai, cynnal a chadw neu ôl-osod. Nododd yr astudiaeth ei bod yn fwy anodd cael gafael ar bren ar gyfer gwaith adeiladu yn fwy nag unrhyw ddeunydd arall yn ystod y pandemig. Hefyd, nododd yr awduron fod prisiau wedi cynyddu 30% i 40% ar gyfer deunyddiau fel pren, dur, concrid a ffensys.

Mae'r ymatebwyr i'r astudiaeth yn credu bod y cynnydd mewn prisiau wedi digwydd yn bennaf yn y chwe mis cyn mis Awst 2021.

Wnaeth y diwydiant ceir ddim dianc rhag effaith andwyol pandemig COVID-19 ar ei gadwyn gyflenwi. Ym mis Mawrth 2020, penderfynodd cwmni Volkswagen atal ei waith cynhyrchu dros dro ledled Ewrop, gan gynnwys ffatrïoedd yn Sbaen, Portiwgal a Slofacia (Volkswagen, 2020). Fe wnaeth ffatrïoedd yn yr Eidal atal gwaith cynhyrchu dros dro, a daeth gwaith cynhyrchu i ben yn yr Almaen a ffatrïoedd Ewropeaidd eraill y cwmni am sawl wythnos. Yn debyg i wneuthurwyr ceir eraill yn Ewrop, penderfynodd cwmni Volkswagen gau ffatrïoedd oherwydd y pandemig. Cyhoeddodd cwmnïau Fiat Chrysler, Peugeot Group a Renault fod cyfanswm o 35 o gyfleusterau gweithgynhyrchu ledled Ewrop yn cau wrth i awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol gyflwyno cyfyngiadau llym ar deithio a bywyd cyhoeddus (CNN, 2020).

Dywedodd Hedwall (2020) "Dros y degawdau diwethaf, mae'r drafodaeth ynglŷn ag optimeiddio cadwyni cyflenwi wedi canolbwyntio'n bennaf ar effeithlonrwydd costau a sicrhau'r canlyniadau gorau yn fasnachol". Fodd bynnag, fel y mae pandemig COVID-19 wedi dangos,"yn y dyfodol bydd angen i gadwyni cyflenwi ddechrau cynnwys gwytnwch a'r gallu i ymaddasu yn eu hystyriaethau[10]".

### Cyfalaf Dynol

Mae Cyfalaf Dynol wedi cael ei ddiffinio fel y stoc o sgiliau a gwybodaeth sy'n cael effaith uniongyrchol ar y broses gynhyrchu (OECD, 2021). Mae cyfalaf dynol yn cael ei golli os nad yw pobl mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Yn ystod pandemig COVID-19, roedd ysgolion a chyfleusterau gofal plant ar gau am gyfnodau estynedig a bu'n rhaid i lawer o rieni addysgu eu plant gartref. Roedd addysgu plant gartref ac addysgu ar-lein wedi para am fisoedd lawer yn y DU, gan darfu ar y broses o gaffael gwybodaeth a sgiliau ymysg pob grŵp oedran. Cafodd hyn effaith negyddol ar gyfalaf dynol yn y dyfodol ar gyfer gweithgarwch economaidd.

Mae lefel colli gwybodaeth a sgiliau pan nad yw pobl yn cael eu cyflogi, neu pan nad yw'r sgiliau hyn yn cael eu defnyddio'n ddigonol oherwydd tangyflogaeth neu anweithgarwch, yn llawer uwch na phan fydd pobl yn gweithio (OECD, 2020). Cynyddodd lefelau tanddefnyddio llafur yn 2020 ym mhob gwlad OECD, o'i gymharu â 2019, gan arwain at golli cyfalaf dynol. Roedd tanddefnyddio llafur yn fwy amlwg ar aelwydydd â chyfrifoldebau gofal ac aelwydydd â phlant a oedd yn cael eu haddysgu gartref.

Mae'r llenyddiaeth yn nodi effeithiau negyddol y pandemig ar gyfalaf dynol trwy'r sianeli canlynol: marwolaethau o ganlyniad i'r haint, afiachedd, pobl yn methu gweithio oherwydd dyletswyddau gofal, mwy o ddiweithdra, tangyflogaeth, gadael y gweithlu a tharfu ar addysg (OECD, 2021). Gellir mesur yr effaith marwolaethau trwy 'flynyddoedd posibl o fywyd a gollwyd' - mesur o farwolaethau cyn pryd sy'n rhoi mwy o bwyslais ar farwolaethau ar oedrannau iau. Bu colled sylweddol o flynyddoedd posib o fywyd o ganlyniad i farwolaethau ym mhob grŵp oedran yn y pandemig. Yn ôl Pifarré i Arolas et al (2021), roedd 20.5 miliwn o flynyddoedd o fywyd wedi'u colli oherwydd COVID-19 erbyn mis Ionawr 2021 mewn 81 o wledydd sydd â data ar farwolaethau. Roedd colli blynyddoedd o fywyd wedi amddifadu economïau a chymdeithasau o gyfalaf dynol a fyddai wedi cael ei ddefnyddio'n gynhyrchiol fel arall. Yn ogystal, mae effeithiau'r hyn a elwir yn "Covid hir" ar iechyd hirdymor wedi cael effaith negyddol ar allu'r dioddefwr i weithio, gan arwain at ddirywiad mewn cyfalaf dynol.

O ganlyniad i'r pandemig a gorchmynion i aros gartref, roedd gan lawer o fusnesau staff yn gweithio gartref a oedd yn gweithio llai o oriau gwaith. Ym mhob galwedigaeth, mae cryn amrywiaeth yng ngallu gweithwyr i weithio gartref. Arweiniodd hyn at newidiadau mewn patrymau ac ymddygiad gweithio. Mae gorfod gweithio gartref wedi cyflymu'r newid presennol tuag at drefniadau gweithio'n hyblyg.

Roedd y rhesymau am y gostyngiad mewn oriau gwaith yn amrywio o leihau oriau staff oherwydd gostyngiad mewn refeniw busnes, a llai o gwsmeriaid. Yn ogystal, cafodd oriau gwaith staff eu lleihau oherwydd bod staff yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch, eu bod yn gwarchod, neu oherwydd bod staff yn hunanynysu gan fod rhywun ar yr aelwyd â symptomau COVID-19. Mae OECD (2020) yn nodi bod y cynnydd mewn tanddefnyddio llafur rhwng 2019 a 2020 ar gyfer 32 o wledydd OECD ar gyfartaledd, bron i bum gwaith yn uwch na'r cynnydd mewn diweithdra dros yr un cyfnod. Mae hyn yn deillio o gynnydd mawr yng nghyfran y gweithwyr a oedd yn cael eu tangyflogi a gweithwyr â chysylltiad ymylol o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r cynnydd mawr mewn tanddefnyddio'r farchnad lafur yn tanlinellu'r ffaith fod colli gwybodaeth a sgiliau o ganlyniad i bandemig COVID-19 wedi effeithio ar fwy o bobl na'r rhai sy'n cael eu cyfrif yn ddi-waith fel arfer.

Roedd llawer o fusnesau, yn enwedig yn y diwydiant lletygarwch a thwristiaeth, wedi gweld cynnydd yn nifer eu cwsmeriaid yn ystod misoedd yr haf 2020 ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio, ac roedd yn anodd i lawer ohonynt recriwtio digon o staff. Ledled y Deyrnas Unedig, roedd busnesau eraill yn ei chael yn anodd recriwtio staff, yn enwedig yn y sectorau amaethyddiaeth a thrafnidiaeth, ac roedd yn anodd iddynt recriwtio aelodau staff i gyflawni dyletswyddau hanfodol fel godro, hel ffrwythau a llysiau, a recriwtio gyrwyr dosbarthu i gludo nwyddau a gwasanaethau ledled y DU. Tra bod y sectorau hyn yn dibynnu ar fudo tymor byr a thymhorol o'r UE, roedd llawer o weithwyr Ewropeaidd wedi dychwelyd adref i Ewrop ac nid oeddent yn bwriadu dychwelyd i'r DU (Paul, 2020).

Roedd y sefyllfa o safbwynt recriwtio staff a phrinder staff yn waeth gan fod aelodau staff hŷn sy'n fwy agored i niwed yn gwarchod neu wedi ymddeol yn ystod y pandemig, gan leihau'r stoc cyfalaf dynol a oedd ar gael i gwmnïau.

### Cynlluniau Cymorth Busnes y Llywodraeth

Er mwyn sicrhau na fyddai'r economi yn chwalu yn ystod pandemig COVID-19, cyflwynwyd cynlluniau cymorth busnes y llywodraeth er mwyn atal busnesau rhag cau a chynnal swyddi trwy gydol y cyfyngiadau symud a thu hwnt. Cyflwynodd y llywodraeth y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, a oedd yn cynnwys rhoi staff ar Ffyrlo os nad oeddent yn gallu parhau i weithio yn ystod y pandemig. Roedd busnesau yn gallu rhoi staff ar Ffyrlo a hawlio arian ar gyfer gweithwyr a oedd yn cael eu trethu trwy'r cynllun Talu Wrth Ennill. Roedd gweithwyr ar unrhyw fath o gontract cyflogaeth yn gymwys, gan gynnwys contractau amser llawn, rhan-amser, gweithio i asiantaeth, contract hyblyg neu gontract dim oriau. Cyfrifoldeb y cyflogwr oedd gwneud cais am y cynllun Ffyrlo ar ran ei weithwyr cyflogedig gan na allent wneud cais am

*9. I gael mwy o fanylion am y fframwaith, gweler https://onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1111/emre.12449*


*10. https://www.weforum.org/agenda/2020/06/ongoing-impact-covid-19-global-supply-chains/*

y cynllun hwn eu hunain. Daeth y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws i ben ar 30 Medi 2021.

Yn ôl McKinsey (2020), erbyn mis Ebrill/Mai 2020, roedd 50% o BBaChau yn y Deyrnas Unedig eisoes wedi manteisio ar Gynllun Ffyrlo'r llywodraeth, neu eu bod yn bwriadu gwneud hynny. Roedd y ganran hon yn cynyddu i dros 75% ar gyfer busnesau â mwy na deg o weithwyr cyflogedig.

Hefyd, roedd busnesau'n gallu gwneud cais am fathau eraill o gynlluniau cymorth y llywodraeth, megis rhyddhad ardrethi busnes, gohirio taliadau treth, benthyciadau, a gwneud cais am gael eu gwarchod rhag cael eu troi allan o safleoedd busnes. Roedd cymorth y llywodraeth yn hanfodol i oroesiad busnesau. Mae Calabrese et al (2022) yn nodi mai dau o gynlluniau cymorth ariannu COVID-19 y llywodraeth - y Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws (CBILS) a'r Cynllun Benthyciadau Adfer (BBLS) oedd y mwyaf poblogaidd wrth helpu i ariannu busnesau'r DU. Mae'r awduron yn nodi bod y llywodraeth wedi darparu cymorth ariannol ar gyfer 92.1% o holl ddyledion cwmnïau yn ystod y cyfnod hwn o'i gymharu â llai na 5% yn ystod y cyfnod cyn COVID-19. Hefyd, mae'r papur yn nodi bod cyfran y llywodraeth o fenthyca BBaChau wedi cynyddu o chwarter 2 i chwarter 3 yn 2020, a bod busnesau micro a bach wedi gwneud y nifer fwyaf o geisiadau am fenthyciadau.

Yn wahanol i'r Cynllun Ffyrlo a gyflwynwyd yn gyflymach, cafodd y cynllun SEISS ei gyflwyno yn ddiweddarach. Roedd yr oedi cyn sefydlu'r cynllun wedi cyfrannu at galedi ariannol busnesau bach. Cyhoeddwyd y SEISS gan y llywodraeth ar 26 Mawrth 2020 ac roedd modd gwneud cais am y grantiau cyntaf ar 13 Mai 2020. Defnyddiwyd meini prawf penodol i asesu a oedd busnes hunangyflogedig yn gymwys neu'n anghymwys ar gyfer y cynllun. Aseswyd busnesau gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyd yn eu ffurflenni treth hunanasesu 2018 i 2019 ar gyfer y tri grant cyntaf, a'u ffurflenni 2019 i 2020 ar gyfer y pedwerydd a'r pumed grant. Felly, ar gyfer y tri chylch cyntaf, cafodd y rhai a ddaeth yn hunangyflogedig ar ôl mis Ebrill 2019 eu heithrio o'r cynllun - roedd 0.2 miliwn o bobl hunangyflogedig yn perthyn i'r categori hwn (Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2020). Cofnododd tua 5.0 miliwn o unigolion incwm hunangyflogaeth ar gyfer y flwyddyn dreth 2019/2020. Roedd y cynllun yn eithrio'r rhai ag





**Ffigur 4:** Cyfran cyfanswm gwerth hawliadau mewn 5 cylch o SEISS yn ôl sector diwydiant

Ffynhonnell: CThEF, 2021

Y sector adeiladu oedd yn gyfrifol am werth ariannol mwyaf hawliadau SEISS ymysg sectorau diwydiant yn y Deyrnas Unedig.






**Ffigur 5:** Defnydd o Gynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig yng Nghymru

Ffynhonnell: CThEF, 2021

Mae'r data yn dangos cyfraddau hawlio'r pumed cylch o SEISS mewn gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru (isaf i'r uchaf). Roedd y cyfraddau hawlio yn isel yng Ngheredigion a'r siroedd cyfagos o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

elw blynyddol o dros £50,000, a oedd yn cyfateb i tua 0.2 miliwn o bobl hunangyflogedig yn ôl Adroddiad Archwilio Cenedlaethol 2020. Nid oedd 0.5 miliwn o unigolion hunangyflogedig yn gymwys oherwydd eu bod yn gwneud colled ariannol neu eu bod yn berchnogion-rheolwyr cwmni (cyfarwyddwyr cwmnïau cyfyngedig). Nid oedd 1.4 miliwn yn gymwys oherwydd bod eu helw masnachu yn llai na'u hincwm heb ei fasnachu (Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2020).

Mae figur 4 yn dangos gwerth hawliadau SEISS mewn sectorau gwahanol o'r economi. Y diwydiant adeiladu a gyflwynodd y nifer fwyaf o hawliadau. Y rheswm am hyn yw bod y sector adeiladu yn cynnwys cyfran uchel o bobl hunangyflogedig nad oeddent yn gallu gweithio gartref yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd cyfradd yr hawliadau mewn nifer o sectorau, megis eiddo tirol, gwybodaeth a chyfathrebu, yn isel iawn gan fod modd gwneud y gwaith hwn gartref i raddau helaeth.

Gwerth cyfartalog yr hawliad cyntaf oedd £2,900, gwerth cyfartalog yr ail hawliad oedd £2,500, a gwerth cyfartalog y trydydd, pedwerydd a phumed cylch o grantiau oedd £2,800 yr un. Yn ôl CThEF (2021), ar gyfer y pedwerydd cylch o SEISS, roedd tua dwy ran o dair o'r boblogaeth gymwys bosibl yn ddynion (2.3m). Roedd yr hawliad cyfartalog ar gyfer menywod yn is (£2,200) o'i gymharu â'r hawliad cyfartalog ar gyfer dynion (£3,100) (HMRC, 2021). Mae'r gwahaniaeth rhwng hawliadau dynion a menywod yn dangos bod y busnesau hunangyflogedig a oedd yn eiddo i fenywod yn perthyn i sectorau a oedd yn ennill llai o elw neu eu bod yn fusnesau llai o ran maint (nid oes gan fenywod gynrychiolaeth ddigonol yn y diwydiant adeiladu, sef y sector oedd â'r hawliadau gwerth uchaf). Mae hyn yn dangos bod menywod hunangyflogedig wedi derbyn grantiau gwerth is ar gyfartaledd na dynion yn yr un sefyllfa, a'u bod yn fwy agored i niwed ariannol yn ystod y pandemig.

Mae Ffigur 5 yn dangos defnydd y cylchoedd gwahanol o SEISS ledled Cymru a'i siroedd. Mae'r ffigur yn dangos bod mwy o bobl wedi manteisio ar SEISS 1 o'i gymharu â'r cylchoedd dilynol.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cynlluniau cymorth y llywodraeth wedi bod yn hanfodol i fusnesau a phobl hunangyflogedig, er bod y cwestiwn am gynaliadwyedd yn y dyfodol yn parhau (Lambert a Van Reenen, 2021). Yn ôl yr awduron, er nad oedd unrhyw ostyngiad net sylweddol yn nifer y busnesau yn 2020, roedd yn debygol y byddai cynnydd yn nifer y busnesau a oedd mewn perygl ond a lwyddodd i oroesi yn ystod y pandemig ac osgoi cau trwy ddibynnu ar gynlluniau cymorth y llywodraeth. Gall dirywiad mawr mewn methdaliadau (gan gynnwys cwmnïau nad ydynt yn hyfyw a allai fod wedi mynd yn fethdalwyr heb gymorth y llywodraeth) beryglu cynhyrchiant yn y dyfodol (Fareed ac Overvest, 2021).


Mae Revoltella, Delanote, a Bending (2021) yn dadlau bod effaith pandemig COVID-19 ar economi Ewrop yn ddifrifol, hyd yn oed gyda chymorth polisi sylweddol. Arweiniodd hyn at gwestiynau ar y pryd megis a oedd y mesurau cymorth yn galluogi cwmnïau i addasu i'r 'normal newydd' neu a oeddent wedi gohirio problemau yn unig trwy gadw adnoddau mewn cwmnïau sydd ond yn bodoli fel arall. Pwysleisiodd Revoltella a Strauch (2021) bwysigrwydd sicrhau bod gan gwmnïau hyfyw a newydd fynediad at gyllid ychwanegol (ac eithrio cyllido dyledion) er mwyn hwyluso adferiad ar ôl y pandemig. Daeth cymhellion ar gyfer ailgyfalafu cwmnïau a mynediad at gyllid ecwiti neu debyg i ecwiti yn bwysicach. Un o'r heriau i fuddsoddwyr yn ystod y cyfnod adfer oedd gwahaniaethu rhwng cwmnïau hyfyw a'r rhai nad oeddent yn hyfyw. Gallai nifer y cwmnïau hyfyw heb gyfalaf digonol gynyddu'n sylweddol ar ôl yr argyfwng. Wrth i elw cwmnïau ostwng, cyfyngwyd ar gyllid mewnol, ac roedd cwmnïau'n dibynnu ar fynediad at gredyd os oeddent eisiau buddsoddi. Roedd y trosoledd uwch posibl a oedd yn deillio o hyn yn peri risg ar gyfer buddsoddiad yn ystod y cyfnod adfer.

Fe wnaeth Agresti et al (2022) olrhain dynameg busnesau yn ystod pandemig COVID-19 gan edrych ar ddata o 17 gwlad. Mae'r canlyniadau'n dangos bod nifer y cwmnïau a ddaeth yn rhan o'r farchnad wedi gostwng yn sylweddol yn ystod misoedd cyntaf pandemig COVID-19, gan mai ychydig o gwmnïau newydd a sefydlwyd. Ar ei lefel isaf (sef mis Ebrill 2020 yn y rhan fwyaf o wledydd), roedd nifer y cwmnïau a ddaeth yn rhan o'r farchnad bob mis wedi gostwng 15% -80% o'i gymharu â'r un mis yn 2019. Fodd bynnag, gan ddechrau ym mis Mehefin 2020, roedd nifer y cwmnïau a ddaeth yn rhan o'r farchnad wedi gwella yn gyffredinol. Cafwyd adferiad cyflym 'math V' mewn gwledydd fel Awstralia, Gwlad Belg, Ffrainc, Norwy, Singapore, y DU, a'r Unol Daleithiau, er bod cryfder yr adferiad wedi arddangos elfen sylweddol o heterogenedd ym mhob un o'r gwledydd hyn. Roedd yr adferiad yn ddigon cryf i wrthbwyso'r colledion mewn cwmnïau newydd a ddaeth yn rhan o'r farchnad ers dechrau 2020. Mewn rhai gwledydd, cynyddodd nifer y cwmnïau a ddaeth yn rhan o'r farchnad yn sylweddol yn 2020 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (e.e. yn y DU ac UDA). Yn y rhan fwyaf o'r gwledydd hyn, parhaodd nifer y cwmnïau a ddaeth yn rhan o'r farchnad i gynyddu'n sylweddol yn 2021 o'i gymharu â 2019.

**Dynameg cwmnïau a ddaeth yn rhan o'r farchnad ac a ymadawodd â'r farchnad yng Nghymru**

Mae data demograffeg busnesau yn dangos na fu colled net sylweddol o gwmnïau yng Nghymru ers dechrau'r pandemig. Roedd nifer y cwmnïau yn gadael y farchnad yng Nghymru yn llai neu'n gyfartal â nifer y cwmnïau newydd a ddaeth yn rhan o'r farchnad hyd at ail chwarter 2021. Mae hyn yn dangos sefyllfa gadarnhaol o safbwynt nifer net y cwmnïau newydd a sefydlwyd trwy gydol y cyfnod hwn; fodd bynnag, roedd mwy o gwmnïau wedi ymadael â'r farchnad na dod yn rhan ohoni ar ôl ail chwarter 2021 (gweler Ffigur 6). Gall hyn adlewyrchu'r ffaith fod y Cynllun Ffyrlo a'r SEISS wedi dod i ben, gan arwain at ymadawiad busnesau nad oeddent yn hyfyw (Lambert a Van Reenen, 2021). Yn ogystal, yng Nghymru, gwelwyd mwy o gwmnïau yn dod yn rhan o'r farchnad a mwy yn ymadael â'r farchnad o'i gymharu â'r cyfnod cyn y pandemig, sy'n dangos mwy o ansicrwydd o safbwynt adnoddau cynhyrchu yn yr economi.


Yn wahanol i Gymru gyfan, bu mwy o gwmnïau yn cau yng Ngheredigion o'i gymharu â nifer y cwmnïau newydd a sefydlwyd ers o leiaf ddechrau 2017 pan oedd y data ar gael am y tro cyntaf (ac eithrio am gyfnod byr yn ystod chwarter pedwar 2019 a gofnododd ostyngiad yn nifer y cwmnïau yn ymadael â'r farchnad). Yn debyg i ffigyrau Cymru, roedd mwy o gwmnïau wedi ymadael â'r farchnad o'i gymharu â nifer y cwmnïau a ddaeth yn rhan ohoni yn ystod y pandemig (gweler Ffigur 7).




**Ffigur 6:** Nifer y cwmnïau a ddaeth yn rhan o'r farchnad ac a ymadawodd â'r farchnad yng Nghymru yn ystod pandemig COVID-19

Ffynhonnell: ONS Business Demography 2022 quarterly experimental statistics (ONS, 2020c).

Roedd sefyllfa gadarnhaol o safbwynt nifer net y cwmnïau newydd a sefydlwyd yng Nghymru cyn y pandemig. Fodd bynnag, roedd nifer y cwmnïau a oedd wedi ymadael â'r farchnad yn uwch na'r nifer a oedd wedi dod yn rhan ohoni yn ystod y pandemig.




**Ffigur 7:** Nifer y cwmnïau a ddaeth yn rhan o'r farchnad ac a ymadawodd â'r farchnad yn Sir Ceredigion yn ystod pandemig COVID-19

Ffynhonnell: ONS Business Demography 2022 quarterly experimental statistics (ONS, 2020c).

Mae'r sefyllfa negyddol o safbwynt nifer net y cwmnïau newydd a sefydlwyd wedi gwaethygu yn ystod pandemig COVID-19, ac mae llawer mwy o gwmnïau wedi ymadael â'r farchnad na'r nifer sydd wedi dod yn rhan ohoni.

### Cysylltedd Digidol ac E-Fasnach

Bu'n rhaid i fusnesau nad oeddent y hanfodol[11] gau yn ystod pandemig COVID-19, ac arweiniodd hyn at gynnydd yn nifer y cwmnïau e-fasnach. Arweiniodd hyn at linellau cynnyrch newydd a chynnydd yn y sylfaen cwsmeriaid. Mae'r duedd hon yn awgrymu newid hirdymor mewn trafodion e-fasnach oddi wrth nwyddau a gwasanaethau moethus tuag at hanfodion bob dydd (OECD, 2020). Mae ffigurau'r OECD yn dangos bod pandemig COVID-19 wedi arwain at gynnydd dramatig yng nghyfran e-fasnach cyfanswm gwerthiant manwerthu.

Dangosodd data Arolwg Buddsoddiad Banc Buddsoddi Ewrop (EIBIS, 2021) fod cwmnïau'r UE wedi cael cryn ysgytwad oherwydd y pandemig, a bod cwmnïau sy'n fwy datblygedig yn ddigidol wedi bod ychydig yn fwy gwydn yn ystod y pandemig. Yn ôl EIBIS, nododd 30% o BBaChau yn y sector gweithgynhyrchu a gwasanaeth yn Ewrop eu bod wedi defnyddio'r argyfwng fel cyfle i gyflymu'r broses drawsnewid arfaethedig. Dywedodd 46% o gwmnïau'r UE eu bod wedi dod yn fwy digidol, ac roedd 34% o gwmnïau llai datblygedig yn ddigidol wedi penderfynu defnyddio'r argyfwng fel cyfle i ddechrau eu taith ddigideiddio.

Yn y DU, roedd cyfran e-fasnach o'r sector manwerthu wedi codi o 17.3% i 20.3% rhwng chwarter cyntaf 2018 a chwarter cyntaf 2020, cyn codi'n sylweddol i 31.3% rhwng chwarter cyntaf ac ail chwarter 2020 (OECD, 2020). Roedd y busnesau a oedd yn gallu manteisio ar y newid hwn a'r cynnydd mewn e-fasnach wedi sicrhau bod eu cwsmeriaid yn gallu cael gafael ar nwyddau o ddiogelwch a chyfleustra eu cartrefi eu hunain. Yn draddodiadol, nid oedd rhai defnyddwyr (e.e. yr henoed) yn siopa ar-lein, ond roedd pandemig COVID-19 wedi eu gorfodi i newid eu harferion siopa a gwneud cyfran fwy o'u siopa ar-lein. Arweiniodd hyn at ehangu cwmpas e-fasnach. O ganlyniad, roedd cwmnïau a oedd wedi croesawu e-fasnach yn parhau i fasnachu er gwaethaf cyfyngiadau symud a mesurau rheoli fel cadw pellter cymdeithasol. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r newidiadau hyn mewn ymddygiad siopa yn hirhoedlog wrth i gwsmeriaid ddod i arfer ag arferion gwario newydd ac wrth i fusnesau fanteisio ar y dirwedd economaidd newidiol (OECD, 2020).

Gan ddefnyddio data o dair gwlad OECD (Awstralia, Seland Newydd a'r Deyrnas Unedig), mae Andrews, Charlton a Moore (2021) yn nodi bod cwmnïau sy'n defnyddio e-fasnach neu apiau yn rheolaidd yn fwy gwydn. Awgrymir y gallai'r ffaith fod cwsmeriaid yn defnyddio apiau adlewyrchu datblygiad gallu sefydliadol a thechnolegol, a'u helpodd i fanteisio ar gyfleoedd twf newydd a ysgogwyd gan y pandemig. Felly, mae dadl gadarn o blaid mabwysiadu technoleg er mwyn gwella gwytnwch (digideiddio cwmnïau).

Roedd gan gwmnïau sefydledig â phresenoldeb mwy amrywiol ar-lein fantais dros gwmnïau llai o ran maint â llai o bresenoldeb ar-lein cyn pandemig COVID-19. Edrychodd Capriolo (2020) ar nifer y busnesau Amazon a lwyddodd i oroesi pandemig COVID-19, gan nodi sut y gallai'r argyfwng fod wedi arwain at newid yn y galw oddi wrth werthwyr bach ac arbenigol tuag at werthwyr mwy o ran maint a mwy amrywiol. Erbyn mis Ebrill 2020 roedd tua 36% o fasnachwyr yn anweithgar, cynnydd o tua 28% ym mis Chwefror. Roedd gwerthwyr â llai na 1,500 o restrau cynnyrch (ASINs) wedi cael eu heffeithio'n wael, tra bod gwerthwyr â dros 3,000 o restrau wedi gweld cynnydd cadarnhaol.

Nid oedd pob cwmni yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau e-fasnach ac nid oedd pob cwmni a chynnyrch e-fasnach wedi elwa o'r twf a nodwyd uchod. Cynyddodd gwerthiant cyfarpar diogelu personol, offer TG, a bwyd, ond roedd llai o alw am gynhyrchion sy'n gysylltiedig â theithio, priodasau, partïon, dillad ffurfiol ac ati. Er gwaethaf y newid i e-fasnach, mae'r dystiolaeth yn dangos bod nifer sylweddol o fanwerthwyr e-fasnach yn wynebu'r un effeithiau ariannol oherwydd COVID-19 â manwerthwyr traddodiadol y stryd fawr gan fod defnyddwyr yn gwario llai ar eitemau nad oeddent yn hanfodol (OECD, 2020).

## Dull Astudio

Nod yr astudiaeth hon yw archwilio a deall effaith economaidd pandemig COVID-19 ar fusnesau yng Ngheredigion. Mae'r prosiect ymchwil yn cwmpasu cwmnïau mewn sectorau diwydiannol amrywiol yn y sir megis amaethyddiaeth, twristiaeth, lletygarwch, manwerthu, gweithgynhyrchu, iechyd a gofal cymdeithasol, sefydliadau elusennol, y celfyddydau creadigol/adloniant, trafnidiaeth, telathrebu, addysg, a'r sector cyhoeddus.

Gan fod y rhan fwyaf o fusnesau naill ai wedi cau neu'n gweithredu ar raddfa fach iawn yn ystod y cyfyngiadau symud rhwng mis Mawrth 2020 a mis Awst 2021, roedd casglu data ymchwil ganddynt er mwyn asesu effaith y pandemig yn her o'r cychwyn cyntaf. Roedd y rhan fwyaf o fusnesau yn debygol o fod â mynediad i'r rhyngrwyd ac roeddent yn gallu cwblhau'r arolwg. Felly, roedd arolwg ar-lein yn hygyrch i fusnesau, roedd yn gallu cyrraedd ystod eang ohonynt, a hwn oedd yr opsiwn mwyaf ymarferol i gasglu data o dan yr amgylchiadau ar y pryd. Roedd angen defnyddio'r dull casglu data mwyaf ymarferol er mwyn cyrraedd cynifer o fusnesau â phosibl, gan gynnwys busnesau a allai fod wedi cau'n barhaol. Ystyriwyd nifer o ddulliau casglu data gan gynnwys cyfweld â pherchnogion busnes ac uwch reolwyr. Fodd bynnag, dewiswyd dull yr arolwg ar-lein er mwyn ehangu cwmpas a chyrhaeddiad ymatebwyr busnes. Bwriad yr holiadur oedd cofnodi nodweddion busnesau mewn sir wledig a gafodd eu heffeithio gan bandemig COVID-19, y cyfyngiadau symud dilynol, a'r cyfyngiadau. Roedd holiadur yr arolwg wedi'i lywio gan lenyddiaeth newydd ar y pwnc, ac roedd y themâu a archwiliwyd yn deillio ohoni. Roedd cyfyngiadau a chyfyngiadau symud y llywodraeth wedi effeithio ar fusnesau, ac o ganlyniad roedd rhai ohonynt wedi cael trafferth gyda'u cadwyni cyflenwi a'r broses o reoli gweithrediadau, eu proffidioldeb, mynediad at fenthyciadau a mathau eraill o gredyd, argaeledd llafur, a chyfalaf dynol. Er mwyn adlewyrchu'r uchod, roedd yr holiadur yn cynnwys set o gwestiynau i gasglu tystiolaeth am ariannu'r busnes, y gadwyn gyflenwi a rheoli gweithrediadau, hunangyflogaeth, cyfalaf dynol, perfformiad a phroffidioldeb, a symud ymlaen tuag at adferiad.

### Llunio'r Holiadur

Isod, rydym yn disgrifio dyluniad a datblygiad yr holiadur, y broses o gasglu data a'r gyfradd ymateb. Mae'r holiadur yn cynnwys chwe rhan:

1. Yn rhan un, gofynnwyd cwestiynau i'r ymatebwyr am eu busnes. Mae'r rhan hon yn casglu gwybodaeth am sector y diwydiant, oedran y busnes, y math o fusnes, a yw'r busnes mewn lleoliad gwledig neu drefol, anawsterau a wynebwyd yn ystod y pandemig, y perygl o fethdaliad ac a oedd y busnes wedi cau dros dro neu'n barhaol. Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn y rhan hon yn hanfodol i'n gwaith ymchwil gan ei bod yn darparu tystiolaeth am amrywiaeth y busnesau sy'n gweithredu yng Ngheredigion. Hefyd, mae'n amlygu anghenion busnesau gwahanol er mwyn eu helpu i adfer o effeithiau'r pandemig.
2. Mae rhan dau yn casglu gwybodaeth am faterion cyflogaeth ac adnoddau dynol. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddarparu gwybodaeth am lefelau staffio yn ystod y pandemig, cyfarwyddeb gweithio gartref y llywodraeth a'i heffaith ar fusnesau, diswyddiadau oherwydd gostyngiad mewn gweithgareddau busnes, mynediad at Gynllun Ffyrlo'r llywodraeth, gweithwyr yn hunanynysu, newidiadau mewn patrymau gwaith, a materion rheoli lefelau straen a llesiant gweithwyr cyflogedig.
3. Mae rhan tri yn dadansoddi data yn ymwneud â newidiadau yng nghadwyn gyflenwi'r busnes a'u heffaith ar reoli gweithrediadau. Gofynnwyd i'r ymatebwyr sut roedd cyfarwyddeb y llywodraeth yn ymwneud â rheoli'r feirws COVID-19 yn effeithio ar eu dull gweithredu. Yn benodol, roedd gennym ddiddordeb yn y newidiadau yn y math o fusnes, newidiadau mewn llinellau cynhyrchu, atal cynhyrchu rhai cynhyrchion dros dro, symud y busnes neu ran o'r busnes i blatfformau ar-lein, agor siopau dros dro mewn unedau busnes gwag, tarfu ar gadwyni cyflenwi'r busnes, newidiadau yng nghost deunyddiau crai neu fewnbynnau, ac arallgyfeirio'r busnes.
4. Mae rhan pedwar yn canolbwyntio ar berfformiad busnes a newidiadau mewn proffidioldeb. Gofynnwyd i'r ymatebwyr am newidiadau mewn refeniw busnes, mesurau a gyflwynwyd gan fusnesau i wella hyder cwsmeriaid, a mynediad at gynlluniau cymorth y llywodraeth. Gofynnwyd i'r ymatebwyr awgrymu argymhellion ynglŷn â sut y gellid adfywio'r sector busnes, yn ogystal ag awgrymiadau yn ymwneud â chymorth polisi y gallai'r llywodraeth ei roi ar waith i gynorthwyo adferiad busnesau.
5. Mae rhan pump yn casglu gwybodaeth am gyllid busnesau. Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi gwybodaeth i ni am eu prif ffynonellau ariannu, pa mor aml maen nhw'n cael benthyciadau banc a mathau eraill o gyfleusterau credyd, a oeddent wedi gwneud cais llwyddiannus am fenthyciadau banc yn ystod y pandemig, newidiadau mewn lefelau dyled allanol eu cwmnïau yn ystod y

*11. Mae'r sector manwerthu nad yw'n hanfodol yn cyfeirio at fusnesau sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau nad ydynt yn cael eu hystyried yn hanfodol i'r cyhoedd. https://www.eposnow.com/uk/resources/what-is-non-essential-retail/. Gweler atodiad 1 am fwy o fanylion.*

pandemig, a oedd eu busnes wedi ceisio gohirio ad-dalu benthyciad oherwydd effaith pandemig COVID-19 ar eu refeniw, sefydlogrwydd eu refeniw busnes yn ystod y pandemig, cymhwysedd ar gyfer unrhyw un o gynlluniau ariannu'r llywodraeth, ac a oeddent wedi gwneud cais llwyddiannus am un o'r cynlluniau hyn.

6. Ac yn olaf, mae rhan chwech yn gofyn am wybodaeth ychwanegol nad yw wedi'i chynnwys o dan y pynciau penodol yn y pum rhan gyntaf. Yn y rhan hon, gofynnwyd i fusnesau am faterion yn ymwneud â chysylltedd digidol a chysylltiad â'r rhyngrwyd yn ystod y pandemig, ac a oeddent yn teimlo'n hyderus y byddai'r economi yn gwella a byddai bywyd yn dychwelyd i normal.


### Casglu Data

Cynhaliwyd yr arolwg trwy sianeli ar-lein yn cynnwys gwefan Cyngor Sir Ceredigion, gwefan Prifysgol Aberystwyth, a chyfryngau cymdeithasol eraill y ddau sefydliad. Hefyd, roedd ymatebwyr yn gallu gofyn am gopi papur o'r holiadur. Ategwyd yr holiadur gan wybodaeth ychwanegol yn esbonio sail resymegol yr arolwg a'r prif amcanion er mwyn annog busnesau i gymryd rhan. Yn ogystal, cynhaliwyd ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yn defnyddio sianeli'r cyfryngau, print, y rhyngrwyd a'r cyfryngau electronig. Fe wnaeth Cyngor Sir Ceredigion hwyluso'r broses o ddosbarthu'r holiaduron a chasglu data gan ymatebwyr ar ein rhan. Roedd yr arolwg ar gael i bob busnes a pherson hunangyflogedig yng Ngheredigion. Cynhaliwyd yr Arolwg rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2021. Roedd yr ardal a gafodd ei chwmpasu gan yr arolwg yn cynnwys trefi a phentrefi mawr fel Aberystwyth, Aberaeron, y Borth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llanarth, Llanddewi Brefi, Llandysul, Llanilar, Llanrhystud, Llanon, Cei Newydd, a Thregaron.

### Demograffeg samplu


Cwblhawyd yr arolwg busnes gan 40 o fusnesau yng Ngheredigion. Ychwanegwyd cyfres arall o ymatebion gan 37 o fusnesau hunangyflogedig o'r arolwg Aelwydydd. Roedd 47% o'r busnesau a ymatebodd i'r arolwg hwn yn gwmnïau atebolrwydd cyfyngedig, ac roedd 64% o'r busnesau a holwyd yn cael eu cynnal fel busnesau unig berchenogaeth. Er bod un busnes wedi'i sefydlu mor gynnar â 1902, roedd 10.5% o'r busnesau a holwyd ond wedi bod yn gweithredu yn ystod y flwyddyn cyn y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020. Roedd dau ddeg tri (60.5%) o fusnesau wedi bod yn gweithredu ers 2000, tra bod pymtheg (39.5%) o fusnesau wedi'u sefydlu cyn y flwyddyn 2000 (Ffigur 8).

Roedd busnesau a phobl hunangyflogedig a ymatebodd i'r arolwg hwn yn dod o ystod eang o ddiwydiannau. Roedd y gyfran fwyaf (32%) yn gweithio yn y sector lletygarwch, twristiaeth a'r sector hamdden, tra bod 17% yn gweithio ym maes manwerthu, a 12% yn y diwydiant adeiladu. Roedd 7% yn gweithio naill ai yn y sector gweithgynhyrchu neu drafnidiaeth, 5% mewn gofal plant, 5% mewn TG, 3% yn y sector gwasanaethau ariannol, addysg neu amaethyddiaeth, ac roedd 2% yn gweithio ym maes gofal iechyd, y sector cyfreithiol, neu'r cyfryngau (Ffigur 9).




**Ffigur 8:** Blwyddyn sefydlu'r busnes

Mae data'r sampl yn cynnwys busnesau a sefydlwyd yn ystod blynyddoedd gwahanol. Roedd cyfran fawr o'r busnesau wedi'u sefydlu ers y 2000au.




**Ffigur 9:** Dosbarthiad sectorau diwydiant y busnesau a holwyd

# Canlyniadau

Mae'r adran hon yn cyflwyno canlyniadau ein harolwg ac mae wedi'i rhannu'n wyth adran. Mae **Adran 1** yn canolbwyntio ar refeniw a phroffidioldeb busnesau. Mae **Adran 2** yn canolbwyntio ar gadwyni cyflenwi busnesau a materion gweithredol, mae **Adran 3** yn edrych ar gyfalaf dynol, mae **Adran 4** yn ymdrin â phobl hunangyflogedig, mae **Adran 5** yn canolbwyntio ar gynlluniau cymorth y llywodraeth, mae **Adran 6** yn ymdrin â mynediad i'r rhyngrwyd a chysylltedd digidol, mae **Adran 7** yn ystyried y peryglon i fusnesau, ac mae **Adran 8** yn edrych ar y dyfodol wrth symud ymlaen. Mae canlyniadau ein harolwg yn cael eu hamlinellu a'u trafod.

## **Adran 1:** Refeniw a Phroffidioldeb

Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig a'r cyfyngiadau symud cyntaf, cafodd pob busnes nad oedd yn hanfodol ei gau yng Ngheredigion. Roedd hyn yn cynnwys busnesau lletygarwch a thwristiaeth, y diwydiant adeiladu, y celfyddydau a'r cyfryngau, a'r sector trafnidiaeth. Cafodd ystod eang o fusnesau a gwasanaethau yng Ngheredigion eu hatal dros dro oherwydd y pandemig. Cafodd pob busnes a gweithgaredd dan do ei atal dros dro, gan gynnwys bariau, caffis a bwytai, teithiau cychod, gwerthiant manwerthu, diwydiant y cyfryngau, therapi tylino, llogi coetsys, gwasanaethau ffotograffiaeth, gwersi nofio, gweithdai a chyngherddau, lleoliadau priodas a digwyddiadau mawr. Roedd busnesau a oedd yn darparu gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys amaethyddiaeth a chyflenwi bwyd, yn parhau i fod yn weithredol. Hefyd, roedd busnesau a oedd yn gallu addasu i ddarparu gwasanaethau ar-lein yn parhau i weithredu ar-lein. Roedd busnesau nad oeddent yn gallu gweithio ar-lein neu nad oeddent yn cael eu hystyried yn fusnesau hanfodol yn gorfod cau dros dro. Roedd llawer o fusnesau bwyd lleol yn gallu addasu a darparu gwasanaeth archebu ar-lein i gwsmeriaid, gan gynnwys gwasanaeth tecawê a dosbarthu bwyd.

Roedd y penderfyniad i gau llawer o wasanaethau nad oeddent yn hanfodol wedi cael effaith sylweddol ar refeniw ac incwm busnesau, gan gynnwys busnesau yng Ngheredigion. Yn ôl yr arolwg hwn, roedd refeniw busnes 69% o fusnesau Ceredigion wedi gostwng yn ystod y pandemig. Roedd refeniw amrywiaeth o fusnesau wedi gostwng, ond y sectorau lleol a gafodd eu heffeithio fwyaf oedd lletygarwch, twristiaeth a hamdden, a manwerthu. Roedd refeniw sectorau eraill wedi gostwng hefyd, gan gynnwys trafnidiaeth, gweithgynhyrchu, adeiladu, cynnal a chadw eiddo, datblygu meddalwedd, ffotograffiaeth, y cyfryngau torfol, y diwydiant moduron, gofal plant ac yswiriant.


Dywedodd 69% o fusnesau fod eu refeniw busnes wedi gostwng, ac roedd canran y gostyngiad yn amrywio oddi mewn ac ar draws sectorau. Roedd refeniw busnes y sector yswiriant wedi gostwng 10%. Roedd refeniw busnes y sector datblygu meddalwedd wedi gostwng 25%, ac roedd canran refeniw busnes y sector manwerthu wedi gostwng rhwng 25% a 70%. Roedd y sector gweithgynhyrchu a'r fasnach moduron wedi gostwng 30%, ac roedd y sector twristiaeth wedi gostwng rhwng 30% a 75%. Roedd refeniw darparwyr gofal plant a'r sector adeiladu wedi gostwng 40%. Roedd refeniw busnesau gofal iechyd preifat a harddwch wedi gostwng 50% ac roedd refeniw busnesau lletygarwch wedi gostwng rhwng 50% a 90%. Ym maes trafnidiaeth, gan gynnwys llogi bysiau mini/coetsys, roedd refeniw wedi gostwng 70%, ac roedd refeniw cwmnïau tacsi wedi gostwng 100% gan nad oeddent yn gallu gweithredu. Roedd refeniw busnesau ym maes y cyfryngau torfol (ffilmio a recordio) wedi gostwng 75%, refeniw caffis a hamdden wedi gostwng 80%, a refeniw busnesau ffotograffiaeth wedi gostwng 95%.

Roedd lefel dyledion busnes allanol 33% o'r busnesau wedi cynyddu. Roedd effaith y cynnydd mewn dyledion allanol yn amlwg yn y sectorau lletygarwch a thwristiaeth, gweithgynhyrchu ac adwerthu, llogi bysiau mini, ffotograffiaeth a'r sector cyfreithiol. O ganlyniad i'r pandemig, bu'n rhaid i 15% o fusnesau wneud cais am ohirio ad-daliadau benthyciad.

Hefyd, nododd 54% o fusnesau fod eu cyllid busnes yn amrywio yn ystod y pandemig. Roedd cyllid llawer o sectorau yn anghyson iawn, gan gynnwys y sector lletygarwch a thwristiaeth, manwerthu, llogi bysiau mini a thacsis, ffotograffiaeth a'r cyfryngau, datblygu meddalwedd, gofal plant, adeiladu a chynnal a chadw eiddo, a gofal iechyd preifat. Roedd refeniw nifer fach o fusnesau Ceredigion (10.5%) wedi cynyddu yn ystod y pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys busnesau ym meysydd gweithgynhyrchu, amaethyddiaeth a'r fasnach adeiladu. Roedd refeniw meysydd amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu wedi cynyddu hyd at 10% tra bod refeniw'r diwydiant adeiladu wedi cynyddu hyd at 30%. Gellid priodoli'r cynnydd hwn mewn refeniw gwerthiant yn y diwydiant adeiladu i gostau cynyddol deunyddiau crai, gan gynyddu gwerth gwerthiant ond nid o reidrwydd yn cynyddu lefel gwerthiant. Roedd refeniw 18% o fusnesau wedi aros yn ddigyfnewid. Roedd y rhain yn cynnwys busnesau yn y sectorau canlynol: cyfreithiol, manwerthu, lletygarwch, gofal plant, a'r fasnach adeiladu. Dywedodd 44% o fusnesau lleol fod eu cyllid wedi aros yn sefydlog yn ystod y pandemig, gan gynnwys busnesau yn y sectorau lletygarwch, hamdden a thwristiaeth, gweithgynhyrchu a manwerthu, y fasnach adeiladu, amaethyddiaeth, cyfreithiol ac yswiriant, trafnidiaeth a gofal plant. Roedd y busnesau hyn wedi parhau i weithredu yn ystod y pandemig a/neu ddefnyddio cynlluniau cymorth y llywodraeth.

Er bod y pandemig wedi effeithio ar lawer o fusnesau yn y dechrau, gan orfodi nifer ohonynt i gau dros dro, nid oedd unrhyw fusnes a holwyd yng Ngheredigion wedi gwneud cais i fod yn fethdalwr o ganlyniad i'r pandemig adeg yr arolwg hwn. Mae'n bosibl mai cynlluniau cymorth y llywodraeth a oedd yn gyfrifol am gynnal y busnesau hyn yn ystod y cyfnod hwn. Bydd goroesiad hirdymor y busnesau hyn heb gymorth ariannol y llywodraeth yn dibynnu ar yr amodau macro-economaidd a grymoedd y farchnad sy'n bodoli.

Gofynnwyd i fusnesau am eu prif ffynonellau cyllid. Nodwyd bod eu cyllid wedi dod o sawl ffynhonnell gan gynnwys benthyciadau banc, refeniw gwerthiant, cyllid a phensiynau personol,




**Ffigur 10**: Problemau a wynebwyd gan Fusnesau Ceredigion

Roedd yr anawsterau mwyaf cyffredin yn cynnwys y gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid, effeithiau negyddol y cyfyngiadau COVID-19 a gyflwynwyd i reoli lledaeniad y feirws, gostyngiad mewn llif arian, cynnydd mewn dyledwyr busnes ac amharu ar gadwyni cyflenwi.

refeniw rhent a marchnata. Er nad oedd 62% o'r busnesau a holwyd yn defnyddio benthyciadau banc neu gyfleusterau credyd fel arfer, roedd 36% wedi defnyddio'r cyfleusterau hyn cyn y pandemig. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi gallu gwneud cais llwyddiannus am fenthyciad banc yn ystod y pandemig, nododd 34% eu bod wedi gwneud cais llwyddiannus tra bod 51% wedi bod yn aflwyddiannus. Roedd 16% o'r ymatebwyr sy'n gwneud cais am fenthyciadau banc fel arfer yn aflwyddiannus yn eu cais am fenthyciad yn ystod y pandemig[12]. Roedd y rhain yn cynnwys busnesau yn y sectorau canlynol: amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu, trafnidiaeth, lletygarwch, a manwerthu. Roedd 16% o fusnesau nad ydynt yn gwneud cais am fenthyciadau banc fel arfer wedi gwneud cais llwyddiannus, gan gynnwys busnesau ym meysydd twristiaeth, hamdden, manwerthu a lletygarwch.

Hefyd, gofynnwyd i'r busnesau a holwyd a oeddent wedi wynebu unrhyw anawsterau oherwydd y pandemig. Roedd 92% o'r busnesau a holwyd wedi wynebu anawsterau, a nodwyd bod yr ymatebion canlynol wedi cael yr effaith fwyaf yn ystod y pandemig (Ffigur 10).

- Roedd 82% o fusnesau wedi gweld gostyngiad yn nifer eu cwsmeriaid oherwydd y pandemig
- Roedd 74% wedi wynebu anawsterau oherwydd cyfyngiadau COVID-19
- Roedd llif arian parod 63% o fusnesau wedi gostwng
- Roedd gan 29% broblemau yn ymwneud â chadwyni cyflenwi
- Roedd 11% wedi gweld cynnydd yn nifer eu dyledwyr busnes
- Roedd gan 5% broblemau gyda staffio
- Roedd gan 3% broblemau gyda mynediad at farchnadoedd
- Roedd gan 3% broblemau mynediad oherwydd parthau diogel mewn trefi
- Roedd gan 3% broblemau oherwydd amgylchiadau teuluol.

## **Adran 2:** Y gadwyn gyflenwi a materion gweithredol


O ganlyniad i achosion o COVID-19, tarfwyd ar gadwyni cyflenwi 45% o'r busnesau a holwyd yng Ngheredigion. Busnesau sy'n gweithredu ym maes manwerthu a gafodd eu heffeithio fwyaf yn sgil y ffaith fod eitemau'n cymryd amser hir i gyrraedd, oedi sylweddol gan gyflenwyr, a phrinder deunyddiau. Roedd yn anodd i'r sector gweithgynhyrchu gael gafael ar gynhyrchion a chydrannau hefyd, tra bod prosiectau adeiladu wedi'u gohirio oherwydd prinder deunyddiau adeiladu. Nid oedd y sectorau lletygarwch a thwristiaeth yn gallu cael gafael ar nwyddau hanfodol er mwyn i'w busnes weithredu fel arfer. Roedd sectorau eraill wedi cael eu heffeithio hefyd, gan gynnwys y sectorau moduron a thrafnidiaeth, yn ogystal â diwydiant y celfyddydau a'r cyfryngau.

Nododd 45% o'r busnesau ei bod yn anodd iddynt gael gafael ar gydrannau a chynhyrchion. Roedd capasiti cynhyrchu cyflenwyr wedi gostwng, gan effeithio'n uniongyrchol ar y broses o gynnal busnesau lleol a'u gallu i gael gafael ar gyflenwadau. Er gwaethaf y cynnydd yn y galw am gynhyrchion, nododd busnesau manwerthu nad oedd yn bosibl ateb y galw na chynnal yr un lefel o wasanaeth a chyflenwadau â chyn y pandemig. Bu'n rhaid i gwmnïau cyflenwi leihau nifer eu staff cyflenwi oherwydd rheolau cadw pellter dau fetr a phrinder staff. Roedd y pandemig wedi effeithio ar gadwyni cyflenwi hefyd oherwydd cyfyngiadau teithio a'r ffaith mai dim ond teithio at ddibenion hanfodol a ganiatawyd. Un enghraifft o hyn oedd y sector celf gan nad oedd artistiaid yn gallu casglu neu ddosbarthu eu gwaith.

Roedd oedi i'r gadwyn gyflenwi deunyddiau ar gyfer busnesau yng Ngheredigion, ac roedd cost deunyddiau crai wedi cynyddu i fusnesau yn y sectorau lletygarwch a thwristiaeth, manwerthu, ac adeiladu. Nododd 69% o fusnesau yn ein harolwg fod cost deunyddiau wedi cynyddu. Mewn rhai achosion, roedd costau deunyddiau ar gyfer busnesau adeiladu wedi cynyddu 30%, ac roedd costau dosbarthu wedi codi hefyd. Roedd prinder gyrwyr dosbarthu ledled y DU yn parhau

12. *Mae'r banciau yn cyflwyno meini prawf cymhwysedd credyd llym yn ystod cyfnodau o argyfyngau economaidd ac ariannol.*






**Ffigur 11:** Anawsterau cadwyni cyflenwi a wynebwyd gan fusnesau yn ystod pandemig COVID-19 wedi'u dangos fel canran o fusnesau yng Ngheredigion

i effeithio ar y costau hyn. Roedd mwy o alw am ddeunyddiau a gwasanaethau adeiladu yn ystod y pandemig oherwydd gwelliannau i'r cartref a'r ardd.

Mae'r rhesymau am y costau uwch ar draws y gadwyn gyflenwi yn ystod y cyfnod hwn yn gymhleth, gan fod ffactorau eraill ar wahân i'r pandemig yn effeithio ar gostau, gan gynnwys mwy o alw, prinder deunyddiau, cystadleuaeth ryngwladol am gyflenwadau, ac effaith Brexit. Cafwyd effeithiau eraill ar fusnesau o ganlyniad uniongyrchol i brinder staff. Roedd y prinder hwn yn deillio o salwch staff, staff yn hunanynysu, staff yn gweithio gartref, a mesurau cadw pellter cymdeithasol a oedd yn lleihau nifer y gweithwyr a oedd yn gallu rhannu swyddfeydd, ffatrïoedd neu fannau dosbarthu. Roedd yr holl ffactorau dynol hyn wedi cael effaith uniongyrchol ac andwyol ar gadwyni cyflenwi (Ffigur 11).

Oherwydd yr effaith ar gadwyni cyflenwi, a'r ffaith fod busnesau wedi gorfod cau dros dro, roedd rhai busnesau wedi addasu i ddulliau gweithio newydd ac i anghenion cwsmeriaid mewn cyfnod byr iawn. Yn yr arolwg hwn, gofynnwyd i fusnesau a oedd unrhyw newidiadau i'r llinell fusnes wedi cael eu cyflwyno oherwydd y pandemig. Nid oedd 42% o fusnesau wedi gwneud unrhyw newidiadau ac roedd eu llinell fusnes yn parhau. Dywedodd 13% o fusnesau nad oedd modd iddynt newid y llinell fusnes. Cafodd y diffyg hyblygrwydd hwn effaith negyddol ar fusnesau. Roedd 8% o fusnesau wedi symud i blatfformau ar-lein a oedd yn cynnwys datblygu eu gwefannau a darparu gwasanaethau dosbarthu. Dywedodd 31% o fusnesau eu bod wedi symud rhan o'u busnes, neu'r busnes cyfan, ar-lein. Roedd 10% o fusnesau wedi ystyried symud eu busnes ar-lein, ac nid oedd 80% wedi ystyried gwneud hynny. Roedd hyn yn cynnwys busnesau a oedd eisoes yn gweithredu ar-lein neu na fyddai eu model busnes yn addas ar gyfer platfformau ar-lein. Roedd tua 20% o'r busnesau yng Ngheredigion wedi creu llinellau busnes newydd oherwydd y pandemig. Roedd y llinellau busnes newydd hyn yn y sector lletygarwch yn cynnwys cyflwyno gwasanaeth dosbarthu ar-lein, gwerthu mwy o fwyd tecawê wedi'i becynnu, creu mannau eistedd awyr agored ar gyfer bariau, caffis a bwytai, a darparu llety i weithwyr hanfodol. Dechreuodd y sector manwerthu werthu masgiau wyneb a chyfarpar diogelu personol, ac aeth un busnes ati i greu a chynhyrchu eitem 'arbennig' er mwyn codi arian at elusennau'r GIG yn ystod y pandemig. Roedd mwy o alw am wasanaethau sy'n cynorthwyo pobl i weithio gartref, fel gosod, atgyweirio a chynnal a chadw cyfarpar band eang, a gosod ac atgyweirio generaduron. Pan ofynnwyd i fusnesau ystyried eu camau yn y dyfodol, roedd 5% yn ystyried sefydlu siopau 'dros dro' mewn unedau gwag, ac roedd 18% yn


ystyried arallgyfeirio i feysydd eraill. Defnyddir siopau dros dro i roi cyfle i entrepreneuriaid bach a newydd rentu mannau ar y stryd fawr a chyrraedd cwsmeriaid manwerthu am gyfnod byr. Hefyd, mae hyn yn llenwi siopau gwag ar y stryd fawr ac yn annog cwsmeriaid i siopa yng nghanol trefi.

### Materion gweithredol

O dan gyfyngiadau COVID-19, roedd busnesau yn wynebu problemau gweithredol, ac roedd yn anodd iddynt sicrhau eu bod yn parhau i fasnachu a bod eu staff a'u cwsmeriaid yn ddiogel. Aeth llawer o fusnesau y tu hwnt i'r hyn roedd angen iddynt ei wneud, gan weithio'n galed i helpu eraill yn y gymuned, parhau i gyflogi staff, a rhoi mesurau ar waith i wella hyder cwsmeriaid. Roedd llawer o bobl yn llai parod i siopa ar y stryd fawr neu fynd i ardaloedd prysur, gan arwain at ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr.

Roedd cyflwyno mesurau iechyd y cyhoedd newydd a chyfyngiadau COVID-19, fel "cadw pellter cymdeithasol" yn golygu bod yn rhaid i fusnesau newid sut roeddent yn gweithredu. Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau'r llywodraeth ac annog cwsmeriaid i ddychwelyd i safleoedd manwerthu, bu'n rhaid i fusnesau gyflwyno ystod o fesurau diogelwch. Roedd y rhain yn cynnwys mwy o fesurau hylendid, fel darparu hylif diheintio dwylo, defnyddio masgiau wyneb dan do, glanhau safleoedd yn drwyadl a gadael bylchau amser rhwng gwesteion, a sicrhau bod systemau awyru digonol ar waith. Roedd mesurau eraill yn cynnwys defnyddio sgriniau tryloyw, arwyddion ar gyfer systemau unffordd a mesurau cadw pellter cymdeithasol er mwyn atal lledaeniad y feirws. Roedd rhai busnesau wedi dechrau cynnal cyfarfodydd ar-lein. Roedd busnesau yn cyfathrebu â chwsmeriaid ar-lein trwy e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd mwy o fusnesau yn ffonio cwsmeriaid ac yn rhannu gwybodaeth mewn cylchlythyr, a nododd busnesau eu bod wedi defnyddio mwy o farchnata ar-lein. Roedd eraill yn darparu opsiynau ar gyfer cofrestru digyswllt o bell, gan ddileu'r angen am gyswllt personol yn ogystal â darparu cyfleusterau ar gyfer archebion a thaliadau o bell, a gwneud ad-daliadau ar-lein ar gyfer gwyliau a oedd wedi'u canslo. Roedd yr holl fesurau uchod wedi creu costau gweithredol ychwanegol i fusnesau, yn ogystal â'r costau ar gyfer adnoddau ychwanegol roedd eu hangen arnynt i fodloni rheoliadau diogelwch COVID-19.

Roedd yn rhaid i 76% o fusnesau lleol a ymatebodd i'r arolwg newid eu dulliau gweithredu oherwydd y mesurau iechyd y cyhoedd newydd a gyflwynwyd. Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr pa effaith roedd y mesurau iechyd newydd wedi'i




**Ffigur 12:** Effeithiau negyddol ar fusnesau oherwydd mesurau iechyd y cyhoedd newydd



chael ar gynnal eu busnes o ddydd i ddydd, cofnodwyd yr ymatebion canlynol (Ffigur 12).

Un o'r effeithiau mwyaf ar fusnesau oedd y ffaith fod llai o gwsmeriaid yn gallu mynychu eu safleoedd oherwydd y mesurau cadw pellter cymdeithasol a gyflwynwyd. Roedd 52% o fusnesau wedi gweld gostyngiad yn nifer eu cwsmeriaid oherwydd y mesurau cadw pellter cymdeithasol. O ganlyniad, aethant ati i newid eu dulliau gweithredu. Cyflwynwyd parthau unffordd, arwyddion a pharthau diogelwch. Roedd llai o seddi ar gael mewn caffis, tacsis, a chychod, ac roedd "llai o bobl yn gallu dod i mewn i'r stiwdio". Cafodd hyn effaith negyddol ar refeniw busnes.

Yn ogystal â'r mesurau cadw pellter cymdeithasol a gyflwynwyd, dywedodd 28% o fusnesau fod safleoedd a mannau gwaith yn cael eu "glanhau'n drylwyr a'u diheintio rhwng cwsmeriaid a theithwyr", a bod "hylif diheintio dwylo a gorchuddion wyneb wedi'u darparu ar gyfer staff a chwsmeriaid". Cyflwynwyd "trefniadau gwirio tymheredd staff a chwsmeriaid", a defnyddiwyd sgriniau amddiffyn rhwng cwsmeriaid a staff. Mewn rhai achosion, roedd "ffenestri ar agor led y pen fel bod awyr iach yn gallu cylchredeg, hyd yn oed yn ystod misoedd oer y gaeaf" a threfnwyd bod "mwy o amser rhwng cleientiaid fel bod digon o amser i lanhau ac awyru'r ystafell". Roedd angen amser ychwanegol gan staff ar gyfer llawer o'r mesurau hyn, a oedd yn lleihau effeithlonrwydd y busnes ymhellach ac yn ei dro yn effeithio ar refeniw.

Bu'n rhaid i 28% o fusnesau addasu mewn sawl ffordd wahanol gan gynnwys "darparu gwasanaeth tecawê yn unig", a "symud gwerthiant ar-lein", o ganlyniad i'r mesurau cadw pellter cymdeithasol. Er enghraifft, roedd gwerthiant busnesau wedi cynyddu ar eu platfformau presennol, ac aeth eraill ati i sefydlu platfformau ar-lein newydd. Roedd addasiadau eraill gan fusnesau yn cynnwys "newid patrymau shifft" a chael "llai o gyfarfodydd wyneb yn wyneb" a "symud i drefniant gweithio o bell". Er enghraifft, bu'n rhaid i un busnes "symud eiddo yn ystod y pandemig er mwyn ymdopi â'r newid" a sicrhau bod digon o le i barhau i weithredu. Dywedodd un o fusnesau'r cyfryngau: "wrth ffilmio a recordio bu'n rhaid i ni gadw grŵp/grwpiau ymhell oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth y cyflwynydd / actorion, ac roedd yn anodd iawn gweithredu o dan yr amgylchiadau".

Dywedodd 21% o fusnesau nad oeddent wedi gallu gweithredu fel arfer neu nad oeddent wedi gallu gweithredu o gwbl. Roedd busnes a oedd yn gwerthu cardiau post wedi rhoi'r gorau i fasnachu gan fod "stondinau arddangos cardiau post wedi'u symud o'r rhan fwyaf o siopau". Hefyd, ni allai un busnes a oedd yn dibynnu ar weithgareddau wyneb yn wyneb fel gweithdai a sgyrsiau weithredu'r model busnes hwn bellach. Dywedodd busnes arall ei fod "o dan gyfyngiadau symud llwyr oherwydd bod staff yn agored i niwed". O safbwynt busnesau tacsi, "roedd yn anodd ynysu neu gadw pellter cymdeithasol mewn tacsi", felly ni allent weithredu hyd eithaf eu gallu. Cafodd gwaith rhai crefftwyr ei ohirio gan nad oedd cwsmeriaid yn fodlon cael gweithwyr yn eu cartrefi. Roedd un cwmni cyfryngau wedi'i chael yn anodd oherwydd iddo gael "llai o gomisiynau gan ddarlledwyr" a'r ffaith fod y cwmni "yn methu darparu rhaglenni yn y ffordd arferol".

I lawer o'r busnesau hyn, roedd yr angen i gyflwyno'r mesurau iechyd y cyhoedd newydd fel mesurau hylendid cyson a mesurau cadw pellter cymdeithasol wedi cael effaith negyddol ar eu gweithrediadau a'u refeniw busnes.

## **Adran 3:** Cyfalaf Dynol

Mae cyfalaf dynol yn gallu cael ei erydu trwy leihau oriau gwaith, absenoldeb oherwydd salwch staff, gwarchod, hunanynysu, ymddeol, colli bywydau a chau busnes. Yng Ngheredigion, bu'n rhaid i 69% o fusnesau yn yr arolwg hwn gau eu busnes dros dro oherwydd pandemig COVID-19, a dim ond 26% o'r rhai a holwyd a oedd yn gallu parhau i fasnachu heb orfod cau. Roedd y busnesau a oedd yn gallu parhau i fasnachu yn cynnwys busnesau ym meysydd amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu, datblygu meddalwedd, gwasanaethau cyfreithiol, manwerthu, gofal plant, plymio a gwresogi. Ar ôl gorfod cau ar ddechrau'r pandemig, roedd y rhan fwyaf o fusnesau yn gallu gweithredu mewn rhyw ffordd, ac nid oedd 95% o'r busnesau a holwyd wedi cau yn barhaol. Fodd bynnag, roedd

COVID-19 wedi effeithio ar 3% o fusnesau a bu'n rhaid iddynt gau yn barhaol. Roedd cau'r busnesau hyn wedi cael effaith ar y gweithwyr cyflogedig ac ar gyfalaf dynol y busnesau.

Er bod llawer o fusnesau wedi llwyddo i gadw'r rhan fwyaf o'u staff, roedd y pandemig wedi cael effaith andwyol ar oriau gwaith rhai busnesau a holwyd yng Ngheredigion. Llwyddodd 54% o fusnesau lleol i gynnal oriau gwaith arferol eu staff. Fodd bynnag, bu'n rhaid i 41% o fusnesau leihau oriau gwaith eu gweithwyr cyflogedig. Roedd y rhesymau am leihau oriau gwaith yn amrywio o leihau oriau staff oherwydd gostyngiad mewn refeniw busnes, gostyngiad mewn cwsmeriaid, a darparu ar gyfer llawer o rieni a oedd yn gweithio gartref ac yn gofalu am blant. Nododd eraill fod oriau gwaith staff wedi gostwng oherwydd bod staff i ffwrdd yn sâl, bod staff yn gwarchod, neu eu bod yn hunanynysu oherwydd bod rhywun ar yr aelwyd â symptomau COVID-19.

Oherwydd y pandemig, gofynnwyd i drigolion y DU weithio gartref os oedd hynny'n bosibl, ac o blith y busnesau yng Ngheredigion a ymatebodd i'r arolwg hwn, roedd gan 32% ohonynt staff yn gweithio gartref. Roedd y busnesau nad oedd ganddynt staff yn gweithio gartref yn cynnwys rhai nad oeddent yn addas ar gyfer trefniant gweithio gartref, yn ogystal â rhai a oedd yn unig berchnogion ac nad oedd ganddynt weithwyr cyflogedig. Roedd y busnesau a nododd nad oedd ganddynt weithwyr yn gweithio gartref yn cynnwys busnesau ym meysydd lletygarwch a thwristiaeth, manwerthu, llogi tacsis a bysiau mini, adeiladu, amaethyddiaeth, ffotograffiaeth, masnach moduron, gofal plant, a gofal iechyd preifat. Bu'n rhaid i'r rhan fwyaf o'r busnesau hyn atal gwaith am gyfnod ond roeddent yn gallu parhau i weithio mewn rhyw ffordd ar ôl y cyfyngiadau symud cychwynnol.

Roedd 32% o'r busnesau yng Ngheredigion a holwyd yn gallu gweithredu dan drefniant lle'r oedd gweithwyr cyflogedig yn gweithio gartref. Roedd gan 23% o'r busnesau hyn un gweithiwr cyflogedig yn gweithio gartref, roedd gan 5% ddau weithiwr cyflogedig yn gweithio gartref ac roedd gan 3% 5 gweithiwr cyflogedig yn gweithio gartref. Roedd y busnesau a nododd fod ganddynt weithwyr cyflogedig yn gweithio gartref yn gweithredu yn y sectorau canlynol: gweithgynhyrchu, lletygarwch, datblygu meddalwedd, cyfreithiol, manwerthu ar-lein, y cyfryngau torfol, plymio a gwresogi, yswiriant a thwristiaeth.

Yn ystod pandemig COVID-19, roedd ysgolion a chyfleusterau gofal plant ar gau am gyfnodau estynedig a bu'n rhaid i lawer o rieni addysgu eu plant gartref. Roedd rhai rhieni a gwarcheidwaid yn gweithio gartref yn ystod y cyfnod hwn hefyd. Dangosodd yr arolwg fod 34% o weithwyr cyflogedig ar draws y busnesau yn gofalu am blant yn ystod y pandemig. Roedd rhai gweithwyr cyflogedig â phlant yn gallu parhau i weithio'n llawn amser gartref, tra bod eraill yn gorfod lleihau eu horiau gwaith a gweithio'n rhan-amser, os nad oeddent wedi cael eu rhoi ar Ffyrlo. Roedd 29% o'r busnesau sy'n cyflogi staff â phlant wedi cofrestru ar gyfer y Cynllun Ffyrlo, ac roedd pob un wedi gwneud cais llwyddiannus i roi staff ar ffyrlo. Roedd 16% o'r busnesau sy'n cyflogi staff â phlant wedi lleihau oriau gwaith eu staff.


Pan ofynnwyd i fusnesau a oedd yn rhaid iddynt ddiswyddo staff yn barhaol neu ddileu swyddi staff yn ystod y pandemig, dywedodd 13% o fusnesau eu bod wedi gorfod diswyddo staff o ganlyniad i bandemig COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys busnesau ym meysydd lletygarwch a'r sector cyfreithiol. Dywedodd 5% o fusnesau fod rhai o'u gweithwyr cyflogedig ar wyliau am dâl, a bu'n rhaid i weithwyr mewn 18% o fusnesau ddefnyddio rhywfaint o'u lwfans gwyliau blynyddol yn ystod y pandemig. Dywedodd 8% o fusnesau fod rhai o'u gweithwyr cyflogedig naill ai'n hunanynysu neu ar absenoldeb salwch a oedd yn cael ei dalu gan y cwmni, ac roedd rhai aelodau staff y busnesau hyn yn absennol ac yn derbyn tâl salwch statudol. Roedd 8% o fusnesau ag aelodau staff yn hunanynysu neu ar absenoldeb salwch heb unrhyw dâl salwch, a oedd yn cynnwys busnesau hunangyflogedig. Hefyd, roedd rhai gweithwyr yn absennol oherwydd salwch yn gysylltiedig â straen yn ystod y pandemig, heb dderbyn unrhyw dâl salwch. Nododd un busnes nad oedd yn gallu gweithredu rhan o'r busnes oherwydd diffyg staff; "nid oes neb ar gael i redeg rhan o'r busnes", gan fod rhai aelodau staff wedi bod i ffwrdd yn gwarchod neu'n methu gweithio.



## **Adran 4:** Hunangyflogaeth

Mae Adran 4 yn trafod ymatebion 37 o fusnesau hunangyflogedig i'r cwestiwn am effeithiau COVID-19 ar eu busnes a ofynnwyd yn yr arolwg aelwydydd. Cofnodwyd yr ymatebion canlynol fel effeithiau ar bobl hunangyflogedig (Ffigur 13):

- Dywedodd 46% o bobl hunangyflogedig fod nifer eu cwsmeriaid wedi gostwng oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Roedd y busnesau hunangyflogedig a nododd fod nifer eu cwsmeriaid wedi gostwng yn cynnwys rhai yn y meysydd canlynol: gwneud canhwyllau, rheoli digwyddiadau, lletygarwch, manwerthu, trin gwallt, cyflenwadau cemegol, gwasanaethau busnes, rheoli prosiectau, cadw siop, ffotograffiaeth, cynhyrchu cyfryngau torfol, therapi cyffredinol, a chynnal a chadw eiddo.
- Dywedodd 43% fod refeniw busnes wedi gostwng gan fod llai o alw am y cynhyrchion a'r gwasanaethau roeddent yn eu cyflenwi. Roedd y busnesau hunangyflogedig a nododd ostyngiad mewn refeniw yn cynnwys busnesau ym meysydd twristiaeth, ymgynghoriaeth ymchwil, rheoli digwyddiadau, lletygarwch, y celfyddydau, manwerthu, gwasanaethau busnes, datblygu meddalwedd, rheoli prosiectau, cadw siop, ffotograffiaeth, trin gwallt, therapi cyffredinol a chynnal a chadw eiddo.
- Roedd 35% wedi cau dros dro oherwydd y pandemig, ac roedd y busnesau hyn yn cynnwys rhai ym meysydd lletygarwch, y celfyddydau, artist ffotograffiaeth, manwerthu, gwasanaethau busnes, cadw siop, ffotograffiaeth, trin gwallt, therapi cyffredinol a chynnal a chadw eiddo.
- Nododd 8% gynnydd mewn refeniw busnes oherwydd cynnydd yn y galw am eu cynhyrchion a'u gwasanaethau, gan gynnwys busnesau ym meysydd gwneud canhwyllau, ymgynghori â'r cyfryngau, a rheoli prosiectau.
- Roedd angen mynediad at hybiau gwaith oddi cartref ar 5% o fusnesau oherwydd problemau'n gweithio gartref.
- Roedd prinder cyflenwadau i gynnal y busnes wedi cael effaith uniongyrchol ar 5% o fusnesau.
- Roedd 3% wedi cau'r busnes yn barhaol oherwydd pandemig COVID-19.





**Ffigur 13:** Effeithiau COVID-19 ar fusnesau hunangyflogedig

## **Adran 5:** Cynlluniau Cymorth y Llywodraeth

Yng Ngheredigion, roedd 59% o'r busnesau a holwyd wedi cofrestru ar gyfer Cynllun Ffyrlo'r llywodraeth. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod y rhan fwyaf o'r busnesau nad oeddent yn gymwys i wneud cais am y Cynllun Ffyrlo yn fusnesau hunangyflogedig neu'n unig fasnachwyr, er bod rhai wedi gwneud cais am gynlluniau eraill gan gynnwys y cynlluniau hunangyflogaeth. Roedd staff yn parhau i weithio mewn rhai busnesau er eu bod yn wynebu heriau eraill fel gostyngiad mewn gwerthiant a chwsmeriaid. Roedd y rhain yn cynnwys busnesau yn y sector twristiaeth a oedd â staff yn gweithio gartref, y sector amaethyddiaeth a barhaodd i fod yn weithredol trwy gydol y pandemig, a'r maes datblygu meddalwedd a barhaodd i werthu ei gynnyrch (er ei fod yn gwerthu llai o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol).


Mae'n bosibl nad oedd rhai busnesau a barhaodd i weithredu yn ystod y pandemig wedi manteisio'n llawn ar y Cynllun Ffyrlo. Mae'n bosibl eu bod wedi rhoi rhai aelodau staff ar ffyrlo, ond nid pob aelod o staff os oedd y busnes yn parhau i fod yn weithredol. Roedd aelodau staff a oedd yn hanfodol i'r busnes trwy gydol y pandemig wedi parhau i weithio, tra bod staff eraill wedi cael eu rhoi ar ffyrlo. Mewn prifysgolion, roedd staff academaidd yn parhau i weithio gartref, gan ddarparu darlithoedd a chymorth i fyfyrwyr, tra bod rhai aelodau staff gweinyddol wedi'u rhoi ar ffyrlo.

Yn ogystal â'r Cynllun Ffyrlo, roedd nifer o gynlluniau cyllido eraill y llywodraeth ar gael i fusnesau yng Nghymru. Roedd y busnesau a holwyd yng Ngheredigion a oedd yn gymwys i wneud cais am gynlluniau ariannu'r llywodraeth wedi gwneud cais am y cynlluniau canlynol: y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) i gefnogi a darparu grantiau i'r hunangyflogedig, y Cynllun Benthyciadau Adfer i gynorthwyo mynediad at gyllid wrth i fusnesau wella o effeithiau COVID-19, y Cynllun Grantiau Ardrethi Busnes i dalu am ardrethi busnes neu eu lleihau. Hefyd, roedd y busnesau a holwyd wedi gwneud cais i'r Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws (CBILS) a'r Gronfa Cadernid Economaidd. Bwriad CBILS oedd darparu cymorth ariannol i fusnesau llai o ran maint ledled y DU a oedd yn colli refeniw a oedd yn effeithio ar eu llif arian. Roedd y Gronfa




**Ffigur 14:** Canran o fusnesau Ceredigion a wnaeth gais llwyddiannus am gynlluniau ariannu'r llywodraeth






**Ffigur 15:** Cyfanswm cyllid y llywodraeth a dderbyniwyd gan fusnesau Ceredigion

Cadernid Economaidd yn darparu cymorth ariannol i fusnesau a oedd yn wynebu heriau gweithredol ac ariannol o ganlyniad i'r pandemig.

Roedd busnesau Ceredigion wedi gwneud ceisiadau llwyddiannus i gynlluniau ariannu'r llywodraeth. Roedd pob busnes cymwys wedi derbyn un neu fwy o grantiau cymorth y gwnaethant gais amdano (Ffigur 14):

- Derbyniodd 66% o fusnesau cymwys grantiau busnes gan Lywodraeth Cymru.
- Roedd 59% o fusnesau cymwys wedi rhoi eu gweithwyr cyflogedig ar y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (Ffyrlo).
- Roedd 41% o fusnesau cymwys wedi cael benthyciadau achrededig neu gytundebau cyllid wedi'u cefnogi gan y Llywodraeth.
- Cafodd 38% fwy o amser i dalu ardrethi busnes
- Derbyniodd 38% o fusnesau hunangyflogedig gyllid SEISS
- Llwyddodd 17% i ohirio eu taliadau TAW
- Roedd 7% wedi cymryd rhan yng Nghynllun Amser i Dalu CThEF

Roedd yr arian a dderbyniodd yr ymatebwyr a oedd wedi cael cyllid gan y llywodraeth wedi amrywio o £400 i £50,000 (Ffigur 15). Y swm cyfartalog o arian a dderbyniwyd gan yr ymatebwyr oedd £18,111.

Er bod 27% o bobl hunangyflogedig wedi gwneud cais am gynlluniau cymorth busnes hunangyflogaeth y llywodraeth, roedd 22% wedi bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac wedi gwneud cais llwyddiannus. Roedd y cynlluniau cymorth a ddefnyddiwyd yn cynnwys:

- SEISS (yn darparu grantiau i unigolion hunangyflogedig)
- Grant Busnesau Bach (yn darparu cymorth i fusnesau bach a chanolig)
- Grant Cyfalaf Busnesau Bach (yn darparu cymorth i fusnesau bach newydd a phresennol ar gyfer eu cynlluniau twf a/neu adfer trwy ddarparu cyfraniadau ariannol tuag at wariant cyfalaf)
- Grantiau dewisol Awdurdodau Lleol (yn darparu cymorth i fusnesau bach a micro nad oeddent yn gymwys ar gyfer y Gronfa Grantiau Busnesau Bach neu'r Gronfa Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch[13])

*13. Mewn ymateb i COVID-19, darparodd y llywodraeth gymorth i fusnesau bach a busnesau yn y sectorau manwerthu, lletygarwch a hamdden. Roedd y cymorth hwn ar ffurf dau gynllun cyllid grant yn y Flwyddyn Ariannol 2020-2021, y Gronfa Grantiau Busnesau Bach a'r Gronfa Grantiau Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden. Am fwy o wybodaeth am y grantiau hyn, gweler: Cronfa Grantiau Busnesau Bach a'r Gronfa Grantiau Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden: canllawiau i awdurdodau lleol (Fersiwn 6) (publishing.service.gov.uk)*

- Grantiau Ardrethi Annomestig (er mwyn ceisio helpu busnesau â phroblemau llif arian uniongyrchol yn dilyn y cyfyngiadau symud)
- Credyd Cynhwysol i'r hunangyflogedig

Roedd 5% o fusnesau hunangyflogedig wedi gwneud cais llwyddiannus am holl grantiau cymwys Llywodraeth Cymru y gwnaethant gais amdanynt. Llwyddodd 8% i gael grant Busnesau Bach, roedd 8% wedi sicrhau grant gan y gronfa Cadernid Economaidd, a nododd 13% eu bod wedi gwneud cais llwyddiannus i'r gronfa SEISS.

## **Adran 6:** Mynediad i'r Rhyngrwyd a Thechnoleg Ddigidol


Roedd cysylltedd rhyngrwyd a diffyg sgiliau digidol yn cael eu hystyried yn faterion allweddol i fusnesau gwledig yng Ngheredigion. Bu'n rhaid i lawer o gyflogwyr a'u gweithwyr ymdopi â gwasanaeth band eang gwael wrth weithio gartref, cynnal busnesau neu fynychu cyfarfodydd ar-lein. Yn aml, roedd hyn yn digwydd tra bod plant yn gorfod cael mynediad at gynnwys dysgu ar-lein. Mewn byd lle mae busnesau'n dibynnu'n helaeth ar gysylltu ar-lein er mwyn marchnata eu cynnyrch, prynu deunyddiau, bancio ar-lein, a chynnal cyfarfodydd busnes neu waith ar-lein, roedd gwasanaeth y rhyngrwyd gwael wedi cael effaith negyddol iawn ar gynnal llawer o fusnesau lleol yn llwyddiannus.

Pan ofynnwyd iddynt a oedd busnesau Ceredigion wedi wynebu unrhyw faterion cysylltedd digidol yn ystod y pandemig, nododd 47% o fusnesau iddynt wynebu materion cysylltedd digidol a mynediad digidol (Ffigur 16).

Roedd y materion a wynebwyd gan fusnesau lleol yn cynnwys:

- diffyg gwasanaeth band eang dibynadwy neu opsiynau symudol (37%)
- gwasanaeth band eang araf (29%)
- signal symudol gwael (26%)
- diffyg sgiliau digidol neu fynediad at gynlluniau hyfforddi i wella gwybodaeth ddigidol (16%)
- cost mynediad (13%)

Roedd busnesau mewn lleoliadau gwledig wedi nodi problemau yn deillio o wasanaeth band eang araf neu ddiffyg signal band eang dibynadwy. Roedd busnesau â staff yn gweithio gartref mewn lleoliadau gwledig wedi cael problemau â chysylltedd gwael a diffyg sgiliau digidol, a byddent wedi gwneud yn well pe bai ganddynt gysylltedd rhyngrwyd da, mynediad at seilwaith teilwng a phe bai ganddynt fwy o ymwybyddiaeth ddigidol cyn y pandemig.




**Ffigur 16:** Materion cysylltedd digidol a wynebwyd gan fusnesau yng Ngheredigion

## **Adran 7:** Bregusrwydd Busnesau

Mae modd cysylltu bregusrwydd busnesau ag effeithiau'r pandemig a'r cyfyngiadau symud a oedd yn cynnwys materion yn ymwneud â mesurau iechyd a diogelwch y cyhoedd, cadwyni cyflenwi a gweithrediadau, gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid, gostyngiad mewn llif arian a refeniw busnesau, mynediad at gyfleusterau cyllid a chredyd, a phroblemau cyflogaeth ac adnoddau dynol. Cyfyngwyd ar weithrediadau busnes oherwydd mesurau iechyd y cyhoedd a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig. Roedd busnesau llai o ran maint mewn mwy o berygl o beidio â gallu gweithredu pan oedd aelodau staff wedi dal COVID-19 neu pan oedd yn rhaid iddynt hunanynysu. Tanlinellodd ymatebion i'n harolwg yr angen i sicrhau bod cymorth ariannol ar gael i bobl hunangyflogedig, yn enwedig y rhai a oedd ag aelodau o'r teulu yn gwarchod ac a oedd yn gorfod hunanynysu. Ar ben hynny, cafodd y cynllun SEISS ei gyflwyno ym mis Mai 2020, tua deufis ar ôl cyhoeddi'r cyfyngiadau symud. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Gronfa Cadernid Economaidd, y Grant Ardrethi Annomestig COVID-19, a Chynllun Benthyciadau Busnes Cymru ym mis Ebrill 2020 (Dirnad Economi Cymru, 2022). Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Aelwydydd[14], bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl yn derbyn Credyd Cynhwysol a chynlluniau lles eraill yn y sir ac yn y DU yn ystod chwarter cyntaf 2020. Ar ôl mis Mai 2020, fe wnaeth nifer y derbynwyr lles sefydlogi pan gyflwynwyd y SEISS, sy'n dangos bod rhai o dderbynwyr newydd Credyd Cynhwysol oherwydd COVID-19 yn bobl hunangyflogedig a newidiodd i SEISS pan oedd y cynllun ar gael. Cafodd y cynllun SEISS ei feirniadu oherwydd ei fod yn hepgor sawl categori o bobl hunangyflogedig, fel busnesau hunangyflogedig a oedd wedi'u sefydlu'n ddiweddar iawn (y rhai a ddechreuodd fasnachu o 2019 ymlaen) a phenaethiaid busnesau a ddefnyddiodd ddifidendau i'w talu eu hunain ond nad oeddent yn derbyn cyflog. Roedd tua 30% o hawlwyr SEISS yn fenywod, ond roedd eu hawliadau yn is na dynion ar gyfartaledd (£2200 o'i gymharu â £3100 ar gyfer y DU). Er ein bod yn cydnabod bod menywod heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector adeiladu, a oedd â nifer uchel o hawliadau a hawliadau am symiau mawr, mae angen gwneud mwy o waith ymchwil i ddeall pa ffactorau eraill a oedd yn gyfrifol am y ffaith fod symiau hawliadau menywod yn llai yn gyffredinol. Dylai polisïau'r llywodraeth geisio annog menywod i sefydlu busnesau mewn sectorau â phroffidioldeb uchel. Mae angen darparu cymorth ychwanegol i fusnesau hunangyflogedig a gynhelir gan fenywod ar ôl pandemig COVID-19. Hefyd, rydym yn cwestiynu a oedd defnyddio proffidioldeb busnes fel maen prawf meincnod ar gyfer hawliadau cymwys yn ddigonol, yn gynhwysol ac yn deg.

Arweiniodd yr achosion o COVID-19 at darfu sylweddol ar gadwyn gyflenwi busnesau yng Ngheredigion - roedd hyn wedi effeithio ar 45% o'r busnesau a holwyd. Roedd prinder cyflenwadau i gynnal busnesau wedi cael effaith uniongyrchol ar 5% o ymatebwyr hunangyflogedig. Roedd rhai busnesau yn anymarferol ac yn gorfod cau oherwydd y tarfu ar y gadwyn gyflenwi, megis tagfeydd trafnidiaeth a chostau mewnbwn cynyddol. Roedd y sefyllfa hon yn waeth oherwydd yr oedi yn ystod camau gwahanol o'r gadwyn gyflenwi, gan gynnwys y ffaith nad oedd porthladdoedd llongau yn gweithredu'n llawn oherwydd effeithiau'r pandemig. Gohiriwyd y gwaith o ddosbarthu stocrestrau a nwyddau gorffenedig, ac fe gafodd hyn effaith ar gwsmeriaid a refeniw busnes. O ganlyniad i effeithiau anuniongyrchol tarfu ar y gadwyn gyflenwi, roedd busnesau a oedd yn ei chael hi'n anodd cyn y pandemig mewn mwy o berygl o fynd yn fethdalwyr.

Ar ben hynny, o safbwynt y galw am gynhyrchion, bu gostyngiad yng ngallu prynu cwsmeriaid gan fod incwm cyfran sylweddol o'r boblogaeth wedi

*14. Teitl yr Adroddiad Aelwydydd ar effaith pandemig COVID-19 ar aelwydydd yn Sir Ceredigion yw "Effaith Economaidd-gymdeithasol Pandemig COVID-19 ar Aelwydydd yn Sir Ceredigion".*

gostwng yn ystod y pandemig. Arweiniodd hyn at gwsmeriaid yn prynu llai o'u nwyddau rheolaidd cyn COVID-19 a chanolbwyntio mwy ar brynu eitemau hanfodol. Newidiodd cwsmeriaid eu harferion siopa hefyd, gan brynu mwy o eitemau ar-lein. Arweiniodd hyn at ostyngiad mewn refeniw i rai busnesau, yn enwedig siopau'r stryd fawr. Mae rhai wedi cau o ganlyniad.

Roedd cyfyngiadau capasiti oherwydd y mesurau iechyd y cyhoedd wedi arwain at ostyngiad posibl mewn nifer y cwsmeriaid, boddhad cwsmeriaid a refeniw busnes. Roedd llawer o fusnesau ond yn gallu darparu gwasanaeth i nifer llai o gwsmeriaid oherwydd yr angen i gadw pellter cymdeithasol, ac roedd busnesau eraill wedi cyflwyno mesurau diogelwch fel sgriniau gwydr a systemau symud unffordd. Mae'r ymatebion i'r arolwg yn dangos bod nifer o fusnesau yn awyddus i gynyddu capasiti. Er enghraifft, roedd cwmni bysiau wedi gwneud cais i gludo mwy o deithwyr er mwyn gallu parhau i fod yn gynaliadwy.

O ganlyniad i'r cyfyngiadau symud, cadw pellter cymdeithasol, cyfyngiadau capasiti a mesurau iechyd y cyhoedd eraill, roedd y rhan fwyaf o fusnesau a ymatebodd i'r arolwg (82%) wedi gweld gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid, ac roedd mwy na hanner (63%) wedi gweld gostyngiad mewn llif arian. Yn ogystal, roedd 11% wedi gweld cynnydd yn nifer eu dyledwyr busnes (h.y. roedd eu cwsmeriaid mewn dyled iddynt). Wrth i refeniw gwerthiant ostwng, roedd llawer o fusnesau wedi gwneud cais am fenthyciadau banc i ariannu eu gweithrediadau. Roedd lefel dyled allanol 33% o'r busnesau wedi cynyddu. Roedd 50% o'r ymatebwyr i'r arolwg a wnaeth gais am fenthyciadau banc wedi gwneud cais llwyddiannus. Y ffynonellau cymorth ariannol eraill oedd y Cynllun Ffyrlo, SEISS a grantiau cymorth eraill yn ymwneud â'r pandemig. Er bod llawer o fusnesau wedi troi at y Cynllun Ffyrlo a chynlluniau cymorth eraill, roedd un busnes wedi gwneud y sylw hwn: "mae'r grantiau wedi cael eu defnyddio ond dyw'r cwsmeriaid ddim wedi dychwelyd". Gyda'i gilydd, mae'r materion hyn yn cwestiynu hyfywedd/cynaliadwyedd tymor canolig a hirdymor BBaChau yng Ngheredigion ac yn yr economi ehangach.

Disgwylir y bydd bregusrwydd busnesau yn un o effeithiau tymor canolig a hirdymor pandemig COVID-19. Felly, mae'n rhaid i sefydliadau, llywodraethau ac asiantaethau'r llywodraeth fod yn rhagweithiol wrth gyflwyno fframweithiau polisi priodol i fynd i'r afael ag effeithiau pandemig COVID-19 yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Mae'n bosibl y bydd angen i fusnesau fod yn fwy arloesol a newid eu dulliau gweithredu er mwyn goroesi a thyfu.


Roedd prinder llafur wedi amharu ar yr adferiad, yn enwedig yn y sectorau sydd wedi crebachu yn ystod y pandemig fel teithio a lletygarwch (Pizzinelli a Shibata, 2022). Roedd y prinder llafur yn bodoli ochr yn ochr â diweithdra yn deillio o ddiffygion paru lle nad oedd gweithwyr yn targedu swyddi yn y sectorau a oedd yn dirywio yn ystod y pandemig. Mae diffygion paru swyddi yn creu diweithdra ffrithiannol sy'n rhwystro adferiad. Roedd yr adferiad yn arafach mewn sectorau cyswllt uchel fel manwerthu (ONS, 2022), ac mae nifer fawr o fusnesau Ceredigion yn perthyn i'r categori hwn. O ystyried bod rhai o'r busnesau hyn wedi mynd yn fethdalwyr a bod rhai newydd wedi'u sefydlu, mae angen gwneud ymdrechion i gefnogi'r busnesau newydd a phresennol, fel eu bod yn parhau i fod yn hyfyw. Yn y cyswllt hwn, mae angen rhoi polisi mwy hirdymor ar waith i helpu adferiad yr economi leol. Mae hyn yn awgrymu bod 'COVID hir i fusnesau' yn bodoli a bod angen cydnabod a mynd i'r afael â'r sefyllfa hon. Mae effeithiau hirdymor y pandemig ar fusnesau a'r economi yn bellgyrhaeddol, a dylid ymgynghori â busnesau wrth ddyfeisio ymatebion polisi gan ystyried manylebau sector a lleoliad.

Cofnododd ein harolwg 5% o'r busnesau a oedd wedi cau yn barhaol oherwydd y pandemig. Mae'n debygol na wnaeth yr arolwg gyrraedd busnesau a oedd wedi cau i'r graddau a fyddai'n gynrychioliadol gan fod ganddynt lai o gymhelliant i gwblhau'r arolwg.




## **Adran 8:** Symud Ymlaen

Roedd hyder yn adferiad yr economi ar ôl y pandemig yn amrywio'n sylweddol, ac roedd 31% o fusnesau yn teimlo'n hyderus a 6% yn teimlo'n hyderus iawn y byddai'r economi yn gwella. Roedd busnesau a oedd yn teimlo'n hyderus yn cynnwys y rhai ym meysydd lletygarwch, twristiaeth, y fasnach adeiladu, gweithgynhyrchu, gofal plant, amaethyddiaeth a thrafnidiaeth. Mewn cyferbyniad, nid oedd 28% yn teimlo'n hyderus yn adferiad yr economi yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys busnesau ym meysydd lletygarwch a hamdden, manwerthu, gweithgynhyrchu, y fasnach adeiladu, ffotograffiaeth a'r cyfryngau, a gwasanaethau cyfreithiol. Roedd 36% yn niwtral neu'n ansicr am yr adferiad economaidd (Ffigur 17a).




**Ffigur 17a:** Hyder yn adferiad yr economi yn y dyfodol




**Ffigur 17b:** Hyder y bydd bywyd yn dychwelyd i normalrwydd yn y dyfodol

Yn yr un modd, roedd 31% o fusnesau yn teimlo'n hyderus neu'n hyderus iawn am fywyd yn dychwelyd i normal, nid oedd 28% yn teimlo'n hyderus, ac roedd 31% yn teimlo'n niwtral am ddychwelyd i normal yn y dyfodol agos. Roedd hyn yn amlygu ansicrwydd mawr ynglŷn â'r sefyllfa barhaus a dyfodol yr economi leol a'r economi fyd-eang (Ffigur 17b).

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a fyddent yn argymell unrhyw gynlluniau newydd i helpu eu busnes i wella yn dilyn y pandemig. Nodwyd nifer o awgrymiadau gan gynnwys rhagor o gymorth/grantiau i dalu am ardrethi busnes, gostyngiad mewn ardrethi busnes, cymorth gweithgynhyrchu, cymorth ariannol ar gyfer recriwtio, a benthyciadau adfer ar gyfer busnesau a oedd wedi ailddechrau masnachu pan oedd y cyfyngiadau'n caniatáu. Nodwyd bod angen cymorth ychwanegol ar y sector lletygarwch a digwyddiadau gan nad oedd y grantiau a dderbyniwyd yn ddigon i sicrhau bod busnesau'n parhau i fod yn hyfyw ac yn gystadleuol. Roedd angen cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer y sector manwerthu gan fod cwsmeriaid yn araf yn dychwelyd. Roedd cwsmeriaid a cherbydau dosbarthu yn wynebu problemau yn cael mynediad i siopau'r stryd fawr. Gofynnodd yr ymatebwyr am ddull polisi mwy cynhwysfawr wrth gynllunio mynediad, gan ystyried yr angen i annog cwsmeriaid i ddychwelyd i'r stryd fawr a hwyluso'r broses o ddosbarthu cyflenwadau.

Awgrymwyd bod angen rhagor o gymorth ar bobl hunangyflogedig, yn enwedig pobl a oedd wedi hunanynysu neu bobl ag aelodau'r teulu yn gwarchod. Hefyd, gofynnwyd am adolygiad o'r Credyd Cynhwysol ar gyfer pobl hunangyflogedig o ystyried eu bod mewn mwy o berygl o gael llai o incwm yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd busnesau a oedd wedi datblygu ochr ddigidol eu busnes yn gofyn am ragor o gymorth i ehangu a chynnal eu galluoedd digidol.

Nododd rhai ymatebwyr eu hanfodlonrwydd â'r penderfyniad i ddileu'r Bonws Cadw Swyddi, sef taliad trethadwy untro o £1,000 i gyflogwyr ar gyfer pob gweithiwr cymwys a oedd ar ffyrlo ac a gyflogwyd yn barhaus tan 31 Ionawr 2021. Cafodd y Bonws Cadw Swyddi ei ddileu ar ôl cyhoeddiad y llywodraeth ar 5 Tachwedd 2020 y byddai'n estyn y Cynllun Ffyrlo hyd at fis Mawrth 2021[15].

*15. https://www.gov.uk/guidance/check-if-you-can-claim-the-job-retention-bonus-from-15-february-2021#:~:text=This%20 guidance%20was%20withdrawn%20on,Retention%20Bonus%20has%20been%20withdrawn.*



# Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn wedi amlygu effaith economaidd pandemig COVID-19 ar fusnesau a phobl hunangyflogedig yng Ngheredigion. Mae wedi nodi'r datblygiadau a ddeilliodd o'r pandemig ac mae'r adran hon yn amlinellu sut y gallai'r gwersi a ddysgwyd helpu i lywio'r broses o lunio polisïau i gynorthwyo adferiad busnesau. Fe wnaeth busnesau a phobl hunangyflogedig yng Ngheredigion roi sylwadau ar lefel eu refeniw a phroffidioldeb, y gadwyn gyflenwi a materion gweithredol, cyfalaf dynol, cynlluniau cymorth y llywodraeth, materion cysylltedd digidol, a hyder yn y dyfodol.

Dangosodd ein canfyddiadau fod refeniw 69% o'r busnesau a holwyd wedi gostwng, bod lefelau dyledion allanol 33% o'r busnesau wedi cynyddu, a bod cyllid 54% o'r busnesau wedi amrywio. Bu'n rhaid i 3% o'r busnesau gau eu busnes yn barhaol a bu'n rhaid i 69% gau eu busnes dros dro oherwydd COVID-19. Bu'n rhaid i 3% o'r busnesau hunangyflogedig gau'n barhaol ac roedd 35% wedi cau dros dro oherwydd y pandemig.

Roedd busnesau wedi wynebu anawsterau fel gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid, llai o alw am eu cynnyrch, heriau staffio, newid gweithrediadau i gydymffurfio â chyfyngiadau'r llywodraeth, tarfu ar gadwyni cyflenwi, gostyngiad mewn llif arian, problemau mynediad oherwydd parthau diogel mewn trefi, a symud gweithrediadau busnes ar-lein.

Dywedodd 13% o'r busnesau eu bod wedi gorfod diswyddo staff. Dangosodd canlyniadau'r arolwg fod yn rhaid i 41% o fusnesau leihau oriau gwaith eu gweithwyr cyflogedig. Dywedodd 45% o'r busnesau a holwyd eu bod wedi cael problemau gyda'u cadwyn gyflenwi, ac roedd rhai o'r busnesau hunangyflogedig wedi cael eu heffeithio gan ddiffyg cyflenwadau yn bennaf. Bu'n rhaid i 76% o'r busnesau newid eu dulliau gweithredu oherwydd y mesurau iechyd a diogelwch newydd a gyflwynwyd. Roedd newidiadau i weithrediadau yn cynnwys lleihau capasiti er mwyn cydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol, diheintio a glanhau mannau cwsmeriaid yn rheolaidd, ac addasu'r busnes fel bod modd i weithwyr weithio gartref.

Er mwyn gallu symud y busnes neu ran o'r busnes ar-lein, roedd angen seilwaith a chysylltedd digidol da. Nododd 47% o'r busnesau eu bod wedi wynebu problemau â chysylltedd a mynediad digidol, gan gynnwys gwasanaeth band eang araf, signal symudol gwael, diffyg sgiliau digidol a'r gost o allu manteisio ar seilwaith digidol.

Cyflwynodd y llywodraeth ystod o gynlluniau cymorth er mwyn helpu busnesau a phobl hunangyflogedig, a'r cynlluniau mwyaf poblogaidd oedd y Cynllun Ffyrlo i helpu i gadw gweithwyr yn ystod y pandemig, a'r SEISS i gynorthwyo pobl hunangyflogedig. Roedd 59% o'r busnesau a holwyd wedi cofrestru ar gyfer y Cynllun Ffyrlo ac roedd 27% o'r bobl hunangyflogedig a holwyd wedi gwneud cais am y SEISS.

Er bod y cynlluniau cymorth a gyflwynwyd gan y llywodraeth wedi helpu i liniaru rhai o effeithiau andwyol y pandemig, mae canlyniad yr astudiaeth hon yn dangos bod busnesau a phobl hunangyflogedig yng Ngheredigion wedi dioddef o ganlyniad i'r mesurau rheoli iechyd y cyhoedd. Mae'r adran uchod ar fregusrwydd wedi amlygu'r gwendidau busnes a allai godi o ganlyniad i bandemig COVID-19. Roedd hawlwyr newydd Credyd Cynhwysol yn cynnwys pobl hunangyflogedig y tarfwyd ar eu busnesau oherwydd y pandemig. Nid oedd sicrwydd a fyddent yn dychwelyd i swyddi cynhyrchiol yn y dyfodol. Mae'n bwysig gwella ein dealltwriaeth o sefyllfa pobl hunangyflogedig yn ystod y pandemig a'r cyfnod dilynol er mwyn eu helpu i wireddu eu potensial cynhyrchiol yn llawn mewn economïau lleol. Dylid darparu cymorth i ailddechrau, ehangu neu gychwyn busnesau newydd.

Gofynnwyd i fusnesau a phobl hunangyflogedig yng Ngheredigion am awgrymiadau polisi i'w helpu i adfer o effeithiau'r pandemig. Roedd rhai yn awyddus i weld Cyngor Sir Ceredigion yn ymgynghori â busnesau i ddeall eu problemau, cyn cyflwyno unrhyw gynlluniau i gefnogi'r stryd fawr a chanol trefi. Er mwyn denu ymwelwyr, mae angen i ganol trefi fod yn lân ac yn hygyrch, gan sicrhau bod digon o leoedd parcio am ddim ar gael. Mae angen hyrwyddo twristiaeth leol ac yn y DU fel bod ymwelwyr yn dychwelyd i drefi Ceredigion. Dylid sicrhau bod grantiau ar gael i fusnesau sydd am gychwyn neu adleoli i ganol trefi a darparu cyllid i addasu eiddo gwag at ddibenion gwahanol. Mae angen polisïau gwell i amddiffyn tenantiaid busnes sy'n rhentu eiddo, megis rhenti rhatach neu gymorth

ariannol ychwanegol gan gynnwys gohirio taliadau.

Cafwyd nifer fawr o sylwadau yn ymwneud â threthi busnes. Gofynnodd llawer o fusnesau am adolygiad er mwyn cefnogi ac adfywio canol trefi Ceredigion ac annog busnesau newydd i sefydlu yn y stryd fawr. Gallai'r llywodraeth ystyried cyflwyno neu barhau â thoriadau/manteision treth gan gynnwys TAW a Threth Gorfforaeth. Roedd yr ymatebion yn cytuno bod angen parhau â chymorth ariannol gan y llywodraeth ar gyfer busnesau sydd wedi eu heffeithio gan y pandemig gan nad yw cwsmeriaid wedi dychwelyd a bod angen hwyluso "busnes fel arfer". Mae'n anodd i fusnesau ymdopi ag effeithiau hirdymor COVID-19. Er mwyn goroesi'r hyn a elwir yn 'COVID hir i fusnesau', bydd angen iddynt addasu a newid eu gweithrediadau i fod yn fwy arloesol.

Awgrymwyd y dylai Cyngor Sir Ceredigion gynorthwyo busnesau i gynyddu eu capasiti er mwyn iddynt fod yn fyw hyfyw a'u helpu i dyfu (mae enghreifftiau o'r busnesau hyn yn cynnwys cwch i dwristiaid a chludiant coetsys). Gofynnodd busnesau lletygarwch a manwerthu am gymorth i gynyddu eu galluoedd digidol gan fod diffyg sgiliau digidol yn y busnes a diffyg cyfleoedd hyfforddi i wella'r sgiliau hyn.

Er bod llywodraethau wedi ceisio meithrin e-fasnach, ni ddylai rheoliadau greu rhwystrau i fodelau busnes newydd sy'n cynnwys gweithgarwch e-fasnach sylweddol. Mae angen mynd i'r afael â materion cysylltedd digidol fel preifatrwydd a diogelwch defnyddwyr er mwyn cynyddu ymddiriedaeth a hyder wrth gwblhau trafodion ar-lein. Mae hyn yn gofyn am ddatblygu sgiliau defnyddwyr i gymryd rhan mewn e-fasnach. Roedd materion cysylltedd digidol yn bodoli cyn y pandemig, ond mae effaith COVID-19 wedi'u gwaethygu.

Fel y trafodwyd uchod ac yn yr adran ar fregusrwydd, nododd ymatebwyr i'r arolwg hwn fod angen rhagor o gymorth ar bobl hunangyflogedig nad oeddent yn gallu gweithio yn ystod y pandemig neu a welodd ostyngiad yn eu hincwm. Awgrymwyd bod angen adolygu'r taliadau Credyd Cynhwysol ar gyfer pobl hunangyflogedig.

Dylai'r llywodraeth gynyddu cymorth addysg i wella ansawdd y gweithlu trwy ddarparu prentisiaethau wedi'u hariannu er mwyn cynorthwyo pobl ifanc i gael gwaith. Dylid sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi iechyd cyffredinol ac iechyd meddwl gweithwyr cyflogedig er mwyn helpu i gadw cyfalaf dynol. Gofynnodd yr ymatebwyr am ragor o gymorth gyda gofal plant, gan gynyddu cymorth ariannol a chynnig darpariaeth ychwanegol. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys cynyddu darpariaeth y cynllun gofal plant di-dâl 30 awr. Gofynnodd yr ymatebwyr am fwy o gymorth gan y sector bancio, gan gynnwys gwasanaeth bancio di-dâl i fusnesau, cynlluniau benthyciadau di-log hirdymor, gohirio ad-daliadau a benthyciadau adfer estynedig. Roedd rhai busnesau yn yr arolwg wedi aros ar agor i wasanaethu eu cymuned yn ystod y cyfyngiadau symud, ac roeddent yn teimlo'n siomedig am y cymorth ariannol a gawsant ac oherwydd y ffaith nad oedd y llywodraeth na'r cyngor lleol wedi cydnabod eu hymdrechion na'u cyfraniad. Er enghraifft, dywedodd un o'r ymatebwyr: *"Dylai polisi ystyried a chael ei addasu ar gyfer yr ychydig fusnesau annibynnol a oedd yn parhau i weithredu trwy'r cyfan.... doedd dim cydnabyddiaeth gan ein llywodraeth ranbarthol na chenedlaethol am y ffaith i ni roi ein cymuned o flaen ein hanghenion personol a busnes... Fe wnaethon ni wasanaethu pob cornel o Geredigion, gan ddod â nwyddau i'r rhai a oedd yn ynysu neu'n methu â defnyddio eu gwasanaethau arferol. Rhwng mis Mawrth a mis Mai, fe gollon ni £90,000 mewn trosiant..... Fe wnaethon ni ymateb yn llawn i anghenion ein cymuned a'n staff..... Fe wnaethon ni aros ar agor i ddiwallu eu hanghenion a dim byd arall..... Roedden ni'n ddiolchgar am y grantiau a gawsom, ond wnaethon nhw ddim dod yn agos at ein digolledu am gost y pandemig i ni".*

I grynhoi, mae'r ymatebion i'r arolwg yn dangos bod angen rhagor o gymorth ar fusnesau a phobl hunangyflogedig yng Ngheredigion. Mae hyn yn cynnwys busnesau a gaeodd dros dro yn ystod y pandemig a'r rhai a arhosodd ar agor ond a gafodd eu heffeithio'n andwyol. Mae'r rhan fwyaf o sylwadau'r ymatebwyr yn cyfeirio at gymorth ariannol parhaus, ond mae'n amlwg hefyd bod angen rhoi blaenoriaeth i'r stryd fawr a chanol trefi yng Ngheredigion wrth symud ymlaen. Hefyd, gallai'r sector bancio gynorthwyo busnesau trwy leihau eu pwysau ariannol trwy gyflwyno gwasanaeth bancio di-dâl i fusnesau, gohirio ad-daliadau, benthyciadau di-log a benthyciadau adfer estynedig.

Yr hyn sy'n amlwg o'r ymatebion yn yr adroddiad hwn yw bod angen gwneud mwy i gynorthwyo busnesau lleol. Nid yw sefyllfa busnesau wedi dychwelyd i normalrwydd ac mae busnesau a phobl hunangyflogedig yng Ngheredigion yn parhau i wynebu llawer o heriau o ganlyniad uniongyrchol i bandemig COVID-19. Gobeithir y bydd canlyniadau'r adroddiad hwn yn helpu llunwyr polisi i ddyrannu adnoddau i'r meysydd sydd eu hangen fwyaf.



# Cyfeiriadau


Aday, S. and Aday, M.S., (2020). Impact of COVID-19 on the food supply chain. Food Quality and Safety, 4(4), pp.167-180.

Agresti, S., Calvino, F., Criscuolo, C. Manaresi, F. and Verlhac, R. (2022) Tracking business dynamism during the Covid-19 pandemic: new cross-country evidence and visualisation tool. https://cepr.org/voxeu/columns/tracking-business-dynamism-during-covid-19-pandemic-new-cross-country-evidence-and. Cyrchwyd ar 20 Ionawr 2023.

Andrews, D, A Charlton and A Moore (2021), "COVID-19, Productivity and Reallocation: Timely evidence from three OECD countries", OECD Economics Department Working Paper No. 1676.

Bai, C., Dallasega, P., Orzes, G. and Sarkis, J., (2020). Industry 4.0 technologies assessment: A sustainability perspective. International Journal of Production Economics, 229, p.107776.

Bank of England (2020) Financial Stability Report. Financial Stability Report December 2020 (bankofengland.co.uk) Cyrchwyd ar 23 Chwefror 2023.

Bank of England (2020b) Impact of Covid-19 on UK businesses – evidence from the Decision Maker Panel in 2020 Q4 | Cyrchwyd ar 23 Chwefror 2023.

Blundell, J. Machin, S., Ventura S., (2021) Covid-19 and the self-employed - ten months into the crisis CEP Covid Analysis, London School of Economics and Political Science, London, UK.

Calabrese, R., Cowling, M. and Liu, W., (2022). Understanding the dynamics of UK Covid-19 SME financing. British Journal of Management, 33(2), pp.657-677.

Capriolo, P. (2020) How many Amazon Businesses Survived the Coronavirus? https://www.zentail.com/blog/how-many-amazon-seller-businesses-survived-the-coronavirus. Cyrchwyd ar 12 Rhagfyr 2021.

CNN (2020) Volkswagen is closing plants across Europe https://edition.cnn.com/2020/03/17/business/volkswagen-plants-europe-coronavirus/index.html. Cyrchwyd ar 12 Rhagfyr 2021.

Dalenogare, L.S., Benitez, G.B., Ayala, N.F. and Frank, A.G., (2018). The expected contribution of Industry 4.0 technologies for industrial performance. International Journal of Production Economics, 204, pp.383-394.

Dolgui, A. and Ivanov, D., (2021). Ripple effect and supply chain disruption management: new trends and research directions. International Journal of Production Research, 59(1), pp.102-109.

Dörr, J.O., Licht, G. & Murmann, S. (2022) Small firms and the COVID-19 insolvency gap. Small Business Economics 58, 887–917. https://doi.org/10.1007/s11187-021-00514-4. Cyrchwyd ar 12 Rhagfyr 2022.

Economic Intelligence Wales (2022) COVID-19 Welsh Government financial interventions: An analysis of administrative and beneficiary survey data. https://developmentbank.wales/sites/default/files/2022-04/EIW%20Bespoke%20Report%202022%20Covid-19%20intervention_ENGLISH-v4.pdf. Cyrchwyd ar 20 Ionawr 2023.

European Investment Bank Investment Survey (EIBIS) (2021) Digitalisation in Europe 2021-2022: Evidence from the EIB Investment Survey (2021). https://www.eib.org/attachments/publications/digitalisation_in_europe_2021_2022_en.pdf. Cyrchwyd ar 20 Ionawr 2023.

Fareed, F, and B Overvest (2021), "Slowdown in business dynamics during the COVID pandemic: Empirical insights and lessons from the Netherlands", https://cepr.org/voxeu/columns/slowdown-business-dynamics-during-covid-pandemic-empirical-insights-and-lessons. Cyrchwyd ar 20 Mai 2021.

Hedwall (2020), The Ongoing Impact of COVID-19 on Global Supply Chains. World Economic Forum (2020), https://www.weforum.org/agenda/2020/06/ongoing-impact-covid-19-global-supply-chains/. Cyrchwyd ar 16 Medi 2022.

HMRC (2021) Self-Employment Income Support Scheme Statistics: December 2021 https://www.gov.uk/government/statistics/self-employment-income-support-scheme-statistics-december-2021/self-employment-income-support-scheme-statistics-december-2021. Cyrchwyd ar 12 Rhagfyr 2022.

Lambert, P. and Van Reenen, J. (2021) A wave of COVID-related bankruptcies is coming to the UK. What can we do about it? LSE Business Review Blog Entry. Cyrchwyd ar 2 Chwefror 2021.

Magableh, G.M., (2021). Supply chains and the COVID-19 pandemic: A comprehensive framework. European Management Review, 18(3), pp.363-382.

Mahmud, M. and Riley, E., (2021). Household response to an extreme shock: Evidence on the immediate impact of the Covid-19 lockdown on economic outcomes and well-being in rural Uganda. World Development, 140, p.105318.

McKinsey (2020) How the COVID-19 crisis is affecting UK small and medium sized enterprises. https://www.mcKinsey.com/~/media/McKinsey/Industries/Public%20and%20Social%20Sector/Our%20Insights/How%20the%20COVID%2019%20crisis%20is%20affecting%20UK%20small%20and%20medium%20size%20enterprises/How-the-COVID-19-crisis-is-affecting-UK-small-and-medium-size%20enterprises.pdf. Cyrchwyd ar 14 Tachwedd 2021.

National Audit Office (2020) Implementing employment support schemes in response to the COVID-19 pandemic, Report by the Comptroller and Auditor General. https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/Implementing-employment-support-schemes-in-response-to-the-COVID-19-pandemic.pdf. Cyrchwyd ar 20 Ionawr 2023.

OECD (2020) "COVID-19 and Wellbeing- Life in the pandemic" https://www.oecd-ilibrary.org/social-issues-migration-health/labour-underutilisation-increased-in-all-oecd-countries-reflecting-higher-numbers-of-people-underemployed-and-marginally-attached-to-the-labour-market_59a7377f-en. Cyrchwyd ar 14 Tachwedd 2021.

OECD (2021), "Business dynamism during the COVID-19 pandemic: Which policies for an inclusive recovery?", OECD Policy Responses to Coronavirus (COVID-19). Business dynamism during the COVID-19 pandemic: Which policies for an inclusive recovery? (oecd.org). Cyrchwyd ar 12 Tachwedd 2022.

Office for National Statistics, Social Survey Division (2022) Annual Population Survey. https://www.nomisweb.co.uk/datasets/apsnew. Cyrchwyd ar 22 Mehefin 2023.

ONS (2020a) Coronavirus and the social impacts on Great Britain Coronavirus - Office for National Statistics (ons.gov.uk),https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/coronavirusandthesocialimpactsongreatbritain/16april2020. Cyrchwyd ar 12 Tachwedd 2021.

ONS (2020b) Coronavirus and the Impact on UK households and businesses - Office for National Statistics (ons.gov.uk) https://www.ons.gov.uk/economy/nationalaccounts/uksectoraccounts/articles/coronavirusandtheimpactonukhouseholdsandbusinesses/2020. Cyrchwyd ar 23 Chwefror 2023.

ONS (2020c) Business Demography quarterly experimental statistics. https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/datasets/businessdemographyquarterlyexperimentalstatisticsuk. Cyrchwyd ar 12 Tachwedd 2022.

ONS (2022) Understanding Changes in Self-employment in the UK: January 2019 to March 2022 - Office for National Statistics (ons.gov.uk). Cyrchwyd ar 22 Mehefin 2023.

Paul R. (2020) Europe's essential workers: Migration and pandemic politics in Central and Eastern Europe during COVID-19. European Policy Analysis; 6:238–263. 10.1002/epa2.1105

Payne-Gifford, S., Whatford, L., Tak, M., Van Winden, S. and Barling, D., (2022). Conceptualising Disruptions in British Beef and Sheep Supply Chains during the COVID-19 Crisis. Sustainability, 14(3), p.1201.

Pifarré i Arolas, H., Acosta, E., López-Casasnovas, G.(2021) Years of life lost to COVID-19 in 81 countries. Scientific Reports 11, 3504. https://doi.org/10.1038/s41598-021-83040-3.

Pizzinelli, C., Shibata, I. (2022) Has COVID-19 Induced Labour Market Mismatch? Evidence from the US and the UK, IMF working paper WP/22/5

Reuschke, D., Henley, A. and Daniel, E. (2020) First findings on the impact of COVID-19 on self-employment in the UK – evidence from the Understanding Society household survey, ERC Insight paper, https://www.enterpriseresearch.ac.uk/wp-content/uploads/2020/08/ERC-Insight-First-findings-on-the-impact-of-COVID-19-on-self-employment-in-the-UK.pdf. Cyrchwyd ar 20 Ionawr 2023.

Revoltella, D., Delanote, J. and Bending, T. (2021) EU firms and the COVID crisis: So far so good, but uncertainty, lack of skills, and pockets of vulnerability remain. https://cepr.org/voxeu/columns/eu-firms-and-covid-crisis-so-far-so-good-uncertainty-lack-skills-and-pockets. Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2021.

Revoltella, D. and Strauch, R. (2021) Jump-starting investment for a strong and even recovery: A call for more equity finance for EU firms https://cepr.org/voxeu/columns/jump-starting-investment-strong-and-even-recovery-call-more-equity-finance-eu-firms. Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2021.

Seifert, R,W. Markoff, R. (2020) Digesting the shocks: how supply chains are adapting to the COVID-19 lockdowns. https://www.imd.org/research-knowledge/articles/supply-chains-adapting-to-covid-19/. Cyrchwyd ar 10 Hydref 2021.

Sharma, R., Shishodia, A., Kamble, S., Gunasekaran, A. and Belhadi, A., (2020). Agriculture supply chain risks and COVID-19: mitigation strategies and implications for the practitioners. International Journal of Logistics Research and Applications, pp.1-27.

Tyfu Tai Cymru (2021) Supply chain challenges affecting housing https://www.cih.org/blogs-and-articles/supply-chain-challenges-affecting-housing. Cyrchwyd ar 17 Rhagfyr 2021.

Volkswagen (2020), Volkswagen brand suspends production on Thursday due to Corona crisis. Volkswagen brand suspends production on Thursday due to corona crisis (volkswagenag.com). Cyrchwyd ar 20 Ionawr 2023.

Walmsley, T., Rose, A. and Wei, D., (2021). The Impacts of the Coronavirus on the Economy of the United States. Economics of Disasters and Climate Change, 5(1), pp.1-52.

World Health Organisation (2020), The Director General opening remarks at media briefing on COVID-19, https://www.who.int/director-general/speeches/detail/who-director-general-s-opening-remarks-at-the-media-briefing-on-covid-19---11-march-2020. Cyrchwyd ar 18 Ionawr 2023.

Wright and Lee (2020) COVID-19 and shattered supply chains, IBM. https://www.ibm.com/thought-leadership/institute-business-value/report/covid-19-supply-chains. Cyrchwyd ar 12 Tachwedd 2021.



# **Atodiad 1**: Siopau sy'n gwerthu nwyddau nad ydynt yn hanfodol

Covid-19: non-essential shops closed but not exhaustive list

Accountancy Daily cyrchwyd ar 3 Ionawr 2023

**Ar gau**

Bu'n rhaid i'r siopau a'r cyfleusterau canlynol gau pan ddaeth masnachu i ben ar 23 Mawrth 2020:

- pob siop manwerthu sy'n gwerthu nwyddau nad ydynt yn hanfodol – gan gynnwys siopau dillad ac electroneg; siopau trin gwallt, siopau harddwch a siopau trin ewinedd; a marchnadoedd awyr agored a dan do, ac eithrio marchnadoedd bwyd;
- gwestyau, hosteli, llety gwely a brecwast, meysydd gwersylla, parciau carafanau, a thai preswyl at ddefnydd masnachol/hamdden (ac eithrio trigolion parhaol a gweithwyr allweddol);
- cyfleusterau hamdden dan do ac awyr agored fel aleau bowlio, arcedau a chyfleusterau chwarae meddal;
- llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, a chanolfannau ieuenctid;
- mannau cymunol mewn parciau, fel meysydd chwarae, cyrtiau chwaraeon a champfeydd awyr agored;
- mannau addoli, ac eithrio angladdau a fynychir gan deuluoedd agos.

Gall gwasanaethau tecawê a dosbarthu aros ar agor ac yn weithredol yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd ddydd Gwener 20 Mawrth 2020.

Bydd y sector manwerthu ar-lein yn aros ar agor, a bydd gwasanaethau post a dosbarthu yn gweithredu fel arfer.

**Rhestr o wasanaethau a oedd ar agor**

Roedd y safleoedd manwerthu canlynol yn gallu aros ar agor:

- banciau;
- siopau beiciau;
- rhentu ceir;
- fferyllfeydd, siopau iechyd, gan gynnwys fferyllfeydd nad ydynt yn rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn;
- siopau cornel;
- modurdai;
- siopau nwyddau cartref a nwyddau metel;
- golchfeydd a sychlanhawyr;
- siopau papurau newydd;
- siopau anifeiliaid anwes;
- gorsafoedd petrol;
- swyddfeydd post;
- archfarchnadoedd a siopau bwyd eraill

Hefyd, mae cyfyngiadau llym ar ddefnydd y cyhoedd o safleoedd manwerthu a chyhoeddus sy'n cael aros ar agor, a bydd perchnogion safleoedd manwerthu yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth.

Dilynwyd y mesurau canlynol:

- sicrhau bod pellter o ddau fetr rhwng cwsmeriaid a gweithwyr siop.
- dim ond mewn grwpiau bach y caiff pobl fynd i mewn i'r siop, er mwyn sicrhau nad yw mannau'n orlawn;
- mae angen rheoli ciwiau y tu allan i siopau a safleoedd hanfodol eraill sy'n aros ar agor.

## **Atodiad 2:** Meini Prawf Cymhwysedd SEISS

Cyhoeddwyd y SEISS ar 26 Mawrth 2020 fel rhan o becyn cymorth Llywodraeth y DU ar gyfer busnesau a phobl hunangyflogedig yn ystod yr achosion o coronafeirws (COVID-19) yn gynnar yn 2020.

Roedd y cynllun ar gael i unigolion hunangyflogedig ac aelodau partneriaeth a oedd yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- wedi masnachu yn ystod blwyddyn dreth 2018 i 2019 ac wedi cyflwyno'r ffurflen dreth hunanasesu ar neu cyn 23 Ebrill 2020 ar gyfer y flwyddyn honno
- wedi masnachu yn ystod y flwyddyn dreth 2019 i 2020
- yn bwriadu parhau i fasnachu yn ystod y flwyddyn dreth 2020 i 2021
- wedi parhau i gynnal masnach a oedd wedi'i heffeithio'n andwyol gan COVID-19

Dyma rai enghreifftiau o sut y gallai busnes gael ei heffeithio'n andwyol gan COVID-19:

- roedden nhw'n methu gweithio am un o'r rhesymau canlynol:
  - roedden nhw'n gwarchod
  - roedden nhw'n hunanynysu
  - roedden nhw ar absenoldeb salwch oherwydd COVID-19
  - roedd ganddyn nhw gyfrifoldebau gofal oherwydd COVID-19
- bu'n rhaid iddynt fasnachu ar raddfa lai neu roi'r gorau i fasnachu dros dro am un o'r rhesymau canlynol:
  - tarfwyd ar eu cadwyn gyflenwi
  - roedd ganddynt lai o gwsmeriaid neu gleientiaid neu dim cwsmeriaid neu gleientiaid
  - roedd eu staff yn methu dod i mewn i'r gwaith

Nid oedd y grant ar gael i gwmnïau cyfyngedig neu gwmnïau'n masnachu trwy ymddiriedolaeth.

Er mwyn penderfynu ar gymhwysedd, edrychodd CThEF ar ffurflenni treth Hunanasesu 2018 i 2019 yn y lle cyntaf. Roedd yn rhaid i elw masnachu fod rhwng £0 a £50,000 a bod o leiaf yn hafal i incwm nad oedd yn dod o fasnachu. Os nad oedd unigolyn yn gymwys ar sail ffurflen dreth Hunanasesu 2018 i 2019, edrychodd CThEF ar gyfartaledd o symiau blynyddoedd treth 2016 i 2017, 2017 i 2018, a 2018 i 2019.

Roedd y cynllun yn caniatáu i unigolyn cymwys hawlio grant trethadwy gwerth 80% o elw masnachu cyfartalog tri mis, wedi'i dalu mewn un rhandaliad hyd at uchafswm o £7,500.

Dechreuodd y cyfnod i wneud cais am y grant cyntaf ar 13 Mai 2020 a daeth i ben ar 13 Gorffennaf 2020.

Roedd modd gwneud cais am yr ail grant ar 17 Awst 2020. Grant trethadwy oedd hwn ac roedd yn werth 70% o elw masnachu cyfartalog tri mis, wedi'i dalu mewn un rhandaliad hyd at uchafswm o £6,570. I fod yn gymwys, bu'n rhaid i fusnes yr unigolyn fod wedi'i effeithio'n andwyol gan COVID-19 ar neu ar ôl 14 Gorffennaf 2020. Daeth y cyfnod i wneud cais am yr ail grant i ben ar 19 Hydref 2020.

Dechreuodd y cyfnod i wneud cais am y trydydd grant ar 30 Tachwedd 2020. Grant trethadwy oedd hwn ac roedd yn werth 80% o elw masnachu cyfartalog tri mis, wedi'i dalu mewn un rhandaliad hyd at uchafswm o £7,500. Daeth y cyfnod i wneud cais am y trydydd grant i ben ar 29 Ionawr 2021.

I fod yn gymwys am y trydydd grant, bu'n rhaid i fusnes unigolyn fod wedi'i effeithio gan COVID-19 cyn neu ar ôl 1 Tachwedd 2020, a bu'n rhaid i'r unigolyn ddatgan ei fod yn bwriadu parhau i fasnachu a naill ai:

- ei fod yn masnachu ar hyn o bryd ond ei fod yn cael ei effeithio gan lai o weithgarwch, capasiti neu alw oherwydd COVID-19
- ei fod yn masnachu ond ei fod yn methu masnachu dros dro oherwydd COVID-19
- bu'n rhaid iddo ddatgan hefyd ei fod yn credu'n rhesymol y byddai unrhyw ostyngiad mewn gweithgarwch, capasiti neu alw neu anallu i fasnachu oherwydd coronafeirws yn ystod y cyfnod rhwng 1 Tachwedd 2020 a 29 Ionawr 2021 yn arwain at ostyngiad sylweddol mewn elw masnachu ar gyfer y flwyddyn yr adroddwyd yr elw, o'i gymharu â'r hyn y byddai wedi disgwyl ei gyflawni fel arall
- ei fod yn bwriadu parhau i fasnachu

Cyhoeddodd y llywodraeth yng Nghyllideb y Gwanwyn 2021 y byddai SEISS yn parhau tan fis Medi 2021, gyda phedwerydd grant a phumed grant terfynol.

Nid oedd y rheolau incwm wedi newid ar gyfer y pedwerydd a'r pumed grant, a bu'n rhaid i'r unigolyn:

- parhau i fasnachu a chynnal busnes a oedd wedi cael ei effeithio'n andwyol gan COVID-19 yn ystod y cyfnod cymhwyso (rhwng 1 Chwefror a 30 Ebrill 2021 ar gyfer y pedwerydd grant)
- wedi masnachu yn ystod y blynyddoedd treth 2019 i 2020 a 2020 i 2021
- yn bwriadu parhau i fasnachu yn ystod y flwyddyn dreth 2021 i 2022
- cyflwyno ei ffurflen dreth hunanasesu ar gyfer 2019 i 2020 cyn neu ar ôl 2 Mawrth 2021

Dechreuodd y cyfnod i wneud cais am y pedwerydd grant ar 22 Ebrill 2021. Y dyddiad cau i wneud cais oedd 1 Mehefin 2021. Yn yr un modd â'r grantiau blaenorol, roedd cymhwysedd yn seiliedig ar ffurflen dreth unigolyn naill ai ar gyfer:

- blwyddyn dreth 2019 i 2020
- cyfartaledd o flynyddoedd treth olynol 2016 i 2017, 2017 i 2018, 2018 i 2019, a 2019 i 2020, os nad oedd unigolyn yn gymwys ar sail 2019 i 2020 yn unig

Gan fod blwyddyn dreth 2019 i 2020 yn cael ei hasesu am y tro cyntaf, roedd rhai unigolion yn gallu hawlio grant am y tro cyntaf. Roedd yr unigolion hyn naill ai'n:

- unigolion hunangyflogedig newydd, sef eu bod wedi dechrau masnachu yn 2019 i 2020 ond nad oeddent wedi masnachu yn 2016 i 2017, 2017 i 2018 neu 2018 i 2019
- unigolion nad oeddent yn gymwys o'r blaen ar sail eu ffurflenni treth, er enghraifft oherwydd bod eu helw masnachu yn llai na'u hincwm nad oedd yn deillio o fasnachu

Grant trethadwy oedd y pedwerydd grant ac roedd yn werth 80% o elw masnachu cyfartalog tri mis, wedi'i dalu mewn un rhandaliad hyd at uchafswm o £7,500.

Dechreuodd y cyfnod i wneud cais am y pumed grant ar 29 Gorffennaf 2021. Bu'n rhaid i fusnes yr unigolyn fod wedi'i effeithio gan COVID-19 yn ystod y cyfnod cymhwyso (rhwng 1 Mai 2021 a 30 Medi 2021). Daeth y cyfnod i wneud cais i ben ar 30 Medi 2021. Cyflwynodd y grant hwn 2 lefel o grant ar sail y gostyngiad mewn trosiant rhwng blwyddyn gyfeirio unigolyn (naill ai 2018 i 2019 neu 2019 i 2020) a blwyddyn y pandemig (cyfnod 12 mis yn dechrau rhwng 1 Ebrill a 6 Ebrill 2021). Roedd y 2 lefel naill ai'n:

- grant gwerth 80% o elw masnachu cyfartalog 3 mis hyd at uchafswm o £7,500 ar gyfer y rhai â throsiant a oedd wedi gostwng 30% neu fwy
- grant gwerth 30% o elw masnachu cyfartalog 3 mis hyd at uchafswm o £2,850 ar gyfer y rhai â throsiant a oedd wedi gostwng llai na 30%

I fod yn gymwys am y grant uwch, bu'n rhaid i drosiant yr unigolyn fod wedi gostwng 30% neu fwy rhwng ei flwyddyn gyfeirio a blwyddyn y pandemig. Nid oedd y prawf trosiant yn berthnasol i unigolion hunangyflogedig newydd a gallent hawlio'r grant uwch.

Ffynhonnell: Y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) - GOV.UK (www.gov.uk) Cyrchwyd ar 9 Mai 2023.

## **Atodiad 3:** Effaith COVID-19 yng Ngheredigion: Arolwg Busnes

### Adran 1: Gwybodaeth Gyffredinol

1. Pa flwyddyn dechreuodd eich busnes?

2. Beth yw eich sector diwydiant?

3. Ydy eich busnes yn gwmni atebolrwydd cyfyngedig?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

4. Ydy eich busnes yn unig berchnogaeth?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

5. Pa un o'r canlynol sydd yn disgrifio lleoliad eich busnes orau?

- ◯ Cefn gwlad
- ◯ Tref
- ◯ Pentref

6. Ydy eich busnes wedi cau dros dro oherwydd effeithiau pandemig COVID-19?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

7. Ydy eich busnes wedi cau yn barhaol oherwydd effeithiau niweidiol pandemig COVID-19?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

8. Ydy eich busnes wedi ceisio am fethdaliad oherwydd effeithiau pandemig COVID-19?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

9. Ydy eich busnes wedi cael profiad o unrhyw anhawsterau oherwydd COVID-19?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

10. Os 'ydy' oedd eich ateb i gwestiwn 9, pa resymau o'r rhestr isod sydd yn berthnasol i'ch busnes? (Dewiswch bob opsiwn addas o'r rhestr isod, os gwelwch yn dda)

- ☐ Rhwystrau oherwydd pandemig COVID-19
- ☐ Materion yn ymwneud a'ch cadwyn cyflenwi
- ☐ Llai o gwsmeriaid
- ☐ Cynydd yn y nifer o ddyledwr busnes
- ☐ Cwymp mewn llif arian
- ☐ Arall

### Adran 2: Cyflogaeth ac Adnoddau Dynol

11. Faint o aelodau staff mae eich busnes yn cyflogi?

12. Faint o'ch gweithwyr sydd yn gweithio o gartref?

13. Ydy eich gweithwyr sydd yn gweithio o gartref yn defnyddio technoleg eu hunan, e.e. cyfrifiaduron?

- ◯ Ydyn
- ◯ Nac Ydyn

14. Ydy eich busnes yn darparu technoleg, e.e. cyfrifiaduron i'r gweithwyr sydd yn gweithio o gartref?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

15. Ydy eich busnes wedi diswyddo unrhyw weithwyr gyda dyddiad galw nôl penodol?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

16. Ydy eich busnes wedi diswyddo unrhyw weithwyr gyda'r gobaith o allu galw nôl?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

17. Ydy eich busnes wedi diswyddo unrhyw weithwyr yn barhaol?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

18. Ydy eich busnes wedi lleihau oriau gweithio gweithwyr?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

19. Ydy eich busnes wedi cofrestru am gynllun ffyrlo y llywodraeth? (Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws)

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

20. Os 'nac ydy' oedd eich ateb i gwestiwn 19, esboniwch y rhesymau am hyn os gwelwch yn dda:

21. Ydy cais eich busnes am y cynllun ffyrlo wedi bod yn llwyddianus?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

22. Faint o weithwyr yn eich busnes a gafodd i'w rhoi ar y cynllun ffyrlo yn ystod pandemig COVID-19?

23. Faint o weithwyr yn eich busnes a gafodd i'w rhoi ar absenoldeb â thâl cwmni yn ystod pandemig COVID-19?

24. Faint o weithwyr yn eich busnes defnyddiodd eu lwfans gwyliau blynyddol yn ystod pandemig COVID-19?

25. Faint o weithwyr yn eich busnes oedd yn hunan ynysu neu ar absenoldeb salwch â thâl cwmni yn ystod pandemig COVID-19?

26. Faint o weithwyr yn eich busnes oedd yn hunan ynysu neu ar absenoldeb salwch tâl statudol yn ystod pandemig COVID-19?

27. Faint o weithwyr yn eich busnes oedd yn hunan ynysu neu ar absenoldeb salwch heb dâl yn ystod pandemig COVID-19?

28. Faint o weithwyr yn eich busnes oedd yn absennol o'r gwaith gyda straen oherwydd pandemig COVID-19?

29. Faint o weithwyr yn eich busnes sydd yn gofalu am blant neu eraill?

30. O ran y gweithwyr sy'n gofalu am blant ac eraill yn eich busnes, ticiwch pa un o'r rhain sy'n berthnasol iddyn nhw, os gwelwch yn dda:

- ☐ Mae'n nhwn gweithio
- ☐ Mae'n nhwn gweithio rhan amser
- ☐ Mae'n nhwn gweithio llawn amser

## Adran 3: Cadwyn Cyflenwi a Rheoli Gweithrediadau

31. Ydy'r cyflwyniad o fesuriadau iechyd cyhoeddus newydd megis y rheol 'pellter cymdeithasol' wedi newid y ffordd mae eich busnes yn gweithredu?

- ○ Ydy
- ○ Nac Ydy

32. Os atebwyd 'ydy' i gwestiwn 31, esboniwch y newidiadau os gwelwch yn dda:

33. Ydy eich llinell busnes wedi newid oherwydd pandemig COVID-19? (Er enghraifft, newidiwyd rhai llinellau distyllty i linellau cynhyrchu glanweithdra dwylo. Rhestrwch y llinellau busnes a ddaeth i ben oherwydd pandemig COVID-19)

34. Rhestrwch y llinellau busnes a ddaeth i ben am gyfnod oherwydd pandemig COVID-19.

35. Rhestrwch linellau busnes newydd a chafodd i'w creu oherwydd pandemig COVID-19.

36. Ydy rhan, neu eich busnes i gyd wedi symud ar-lein?

- ○ Ydy
- ○ Nac Ydy

37. Ydych chi'n ystyried symud eich busnes ar-lein?

- ○ Ydyn
- ○ Nac Ydyn

38. Ydych chi'n ystyried agor siopau 'pop-up' mewn unedau busnes gwag?

- ○ Ydyn
- ○ Nac Ydyn

39. Ydych chi'n ystyried amrywio eich busnes cyfredol i feysydd arall?

- ○ Ydyn
- ○ Nac Ydyn

40. Ydy pandemig COVID-19 wedi amharu ar gadwyn cyflenwi eich busnes?

- ○ Ydy
- ○ Nac Ydy

41. Os 'ydy' oedd eich ateb i gwestiwn 40 uchod, esboniwch sut mae cadwyn cyflenwi eich busnes wedi'i amharu, os gwelwch yn dda?

42. A allwch chi roi amcangyfrif o faint y cant o'ch cadwyn cyflenwi sydd wedi amharu arno?

43. Ydy cost deunyddiau crai neu gynhyrchion wedi cynyddu oherwydd pandemig COVID-19?

- ○ Ydyn
- ○ Nac Ydyn

## Adran 4: Perfformiad a Buddioldeb Busnes

44. Ydy eich cyllid busnes wedi newid yn ystod pandemig COVID-19? Dewiswch o'r rhestr isod yr opsiwn mwyaf addas sydd yn disgrifio eich sefyllfa cyllid orau, os gwelwch yn dda:

- ○ Cynyddiad
- ○ Gostyngiad
- ○ Aros yr un peth

45. Os 'cynyddiad' oedd eich ateb i gwestiwn 44 uchod, beth yw'r canran mae eich cyllid busnes wedi cynyddu yn ystod pandemig COVID-19?

46. Os 'gostyngiad' oedd eich ateb i gwestiwn 44 uchod, beth yw'r canran mae eich cyllid busnses wedi gostwng yn ystod pandemig COVID-19?

47. Pa fesuriadau mae eich busnes wedi gweithredu er mwyn cynyddu hyder cwsmeriaid? (Rhestrwch nhw, os gwelwch yn dda)

48. Pa un o'r cynlluniau a mentrau canlynol ydych chi wedi cyrchu yn ystod pandemig COVID-19

- ☐ Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws
- ☐ Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth
- ☐ Benthyciadau neu gytundebau cyllid achrededig a gefnogir gan y llywodraeth
- ☐ Grantiau busnes wedi'u hariannu gan Lywodraethau Cymru
- ☐ Gwyliau ardrethi busnes
- ☐ Gohirio taliadau TAW
- ☐ Cynllun Amser i Dalu Cyllid a Thollau EM

49. A oes cynlluniau newydd byddwch chi yn argymell, gall helpu adfywio eich sector busnes? (Rhestrwch nhw, os gwelwch yn dda)

50. Yn eich barn chi, pa cymorth polisi bydd eich busnes chi yn hoffi gweld y llywodraeth yn cyflwyno, i helpu busnesau yn y wlad i wella o effaith COVID-19? (Rhestrwch nhw, os gwelwch yn dda)

51. Pa fath o gymorth a buddsoddiadau byddwch yn hoff o weld y sector cyhoeddus (Llywodraeth, Awdurdodau Lleol) yn gweithredu i helpu cefnogi yr adferiad o pandemig COVID-19?

## Adran 5: Ariannu eich Busnes

52. Beth yw prif ffynonellau ariannu eich busnes? (Rhestrwch nhw, os gwelwch yn dda)

53. Ydy eich busnes fel arfer yn defnyddio benthyciadau banc a chyfleusterau credyd?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

54. Ydy eich busnes wedi medru ceisio am fenthyciadau banc yn llwyddiannus yn ystod y pandemig?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

55. Ydy lefel dyled allanol eich busnes wedi cynyddu yn ystod y pandemig?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac ydy

56. Ydy eich busnes wedi ceisio am fenthyciadau ad-dalu gwyliau oherwydd effaith COVID-19 ar eich cyllid?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

57. Ydy ariannu eich busnes wedi aros yn sefydlog yn ystod pandemig COVID-19?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

58. Ydy eich busnes yn gymwys i geisio am unrhyw gynlluniau cyllido'r llywodraeth?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

59. Os 'ydy' oedd eich ateb i gwestiwn 58 uchod, rhestrwch y cynllun(iau) os gwelwch yn dda:

**60. Ydy eich busnes wedi bod yn llwyddianus wrth geisio am unrhyw gynlluniau cyllido'r llywodraeth a rhestrwyd yn gwestiwn 59 uchod?**

- ◯ Ydy
- ◯ Nac Ydy

**61. Os 'ydy' oedd eich ateb i gwestiwn 60 uchod, faint mewn cyfanswm derbyniwyd eich busnes mewn punnoedd sterling (£)?**

## Adran 6: Gwybodaeth Ychwanegol

**62. Ydy eich busnes wedi cael i'w effeithio gan unrhyw un o'r problemau cysylltedd digidol canlynol yn ystod pandemig COVID-19? Dewiswch bob opsiwn sydd yn berthnasol**

- ☐ Cyflymder band llydan isel
- ☐ Diffyg signal band llydan/signal ffôn symudol ddibynadwy
- ☐ Diffyg sgiliau digidol yn eich busnes
- ☐ Diffyg cyfleoedd hyfforddi ar gyfer sgiliau digidol
- ☐ Diffyg ymwybyddiaeth o wahanol gynlluniau i helpu gyda mynediad digidol
- ☐ Cyfyngu ar y cyfleoedd ar gyfer twf neu arloesi
- ☐ Colli boddhad cwsmeriaid
- ☐ Cost mynediad
- ☐ Arall

**63. Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am yr economi yn gwella ar ôl pandemig COVID-19?**

- ◯ Hyderus iawn
- ◯ Hyderus
- ◯ Niwtral
- ◯ Ddim yn hyderus
- ◯ Ddim yn hyderus o gwbwl

**64. Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am fywyd yn dychwelyd i normal yn y dyfodol agos?**

- ◯ Hyderus iawn
- ◯ Hyderus
- ◯ Niwtral
- ◯ Ddim yn hyderus
- ◯ Ddim yn hyderus o gwbwl

**65. Byddwch yn hoff o fod yn rhan o grŵp ffocws i drafod rhai effeithiau pandemig COVID-19 yng Ngheredigion, mewn mwy o fanylder?**

- ◯ Byddaf
- ◯ Na Fyddaf

**66. Os 'byddaf' oedd eich ateb i gwestiwn 65 a byddwch yn hoff o fod yn rhan o grŵp ffocws, darparwch eich manylion cyswllt os gwelwch yn dda:**

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................